| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Cyngor Llawn |
| Dyddiad: | 25 Medi 2025 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/25 |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones – Plant a Theuluoedd<br>Y Cynghorydd Alun Roberts – Oedolion |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Fon Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Arwel Owen, Pennaeth Oedolion. |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Fon Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Emma Edwards, Rheolwr Busnes<br>01248 751887<br><br>Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Mae'r papur hwn yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/25 i aelodau'r Cyngor Llawn, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pwrpas yr adroddiad yw hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd am y perfformiad a'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â chynnwys meysydd i'w gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Argymhellir bod:

1) Aelodau'r Cyngor i dderbyn yr adroddiad fel adlewyrchiad cywir o'n darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol dros y 12 mis diwethaf.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Sylwch os gwelwch yn dda fod yr adroddiad yn ofyniad statudol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ac felly mae'n ofyniad gorfodol.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

| |
|---|
| At sylw’r Cyngor Llawn. |

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â nifer o brosiectau cyfredol ac yn y dyfodol a fydd yn cefnogi'r cyngor yn ei waith i ddiogelu dinasyddion Ynys Môn yn unol ag amcanion y Cyngor. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | Mae pennod benodol mewn perthynas ag atebolrwydd ariannol tuag at ddiwedd yr adroddiad. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Rydym wedi mynd i'r afael â'n gwaith partneriaeth a chyflwyno sylwadau ar hynny drwy gydol yr adroddiad. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Rydym wedi cynnwys yr adborth gan Ddinasyddion Ynys Môn trwy gydol yr Adroddiad. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei | Amherthnasol - Bydd adroddiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg. |

| | | |
|---|---|---|
| | gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Cymeradwywyd. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Amgerthnasol |
| 9 | Aelodau Lleol | Bydd yr Adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Cyngor Llawn. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Copi o’r Adroddiad - Gwelwch yr atodiad. |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Adroddiad presennol, gweler Atodiad F.<br><br>Gellir gweld adroddiadau blaenorol ar Wefan y Cyngor. |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Adroddiad **Blynyddol** y Cyfarwyddwr

ar effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol

2024-25



MÔN SY'N WYBODUS AM DRAWMA
TRAUMA INFORMED ANGLESEY

Ynys Môn Oed-Gyfeillgar
Age Friendly Anglesey

ynysmon.llyw.cymru

Cyngor Sir Ynys Môn | Cyngormon | Cyngormon | cyngormon



# Cynnwys

Crynodeb y Cyfarwyddwr
(fideo)

Y Cyd-destun....................................................... 3-5

Arweinyddiaeth........................................... 6-10
Y Gweithlu..............................................11-13
Adnoddau Ariannol ..................................14-15

Asesu Perfformiad:
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd .....16-24
Gwasanaethau Oedolion.........................25-33

Arolygu ac Adolygiadau ..........................34-35
Cwynion a Sylwadau ...............................36-37
Gwybodaeth Arall .....................................37-39

Atodiadau:
Geirfa.............................................................40-41
Astudiaethau Achos .........................................41

# Y Cyd-destun



## PWY WNAETHON NI EU HELPU A'U CEFNOGI (2024/25)

(*) flwyddyn flaenorol

**5,180**
**CYSYLLTIAD AG OEDOLION** (4,627*)

**5,354**
Cysylltiad **Â PHLANT A'U TEULUOEDD** (4,621*)

**1,190**
Oedolion sy'n derbyn gwybodaeth, **CYNGOR A CHYMORTH** (906*)

**1,438**
Oedolion sy'n derbyn **CYNLLUN GOFAL A CHYMORTH** ar 31 Mawrth (1,324 yn 23/24)

**403**
sydd â **CHYNLLUN GOFAL** ar ddiwedd y flwyddyn (418 yn 23/24)

**197**
**BLANT UNIGOL SY'N DERBYN GOFAL** (180 yn 23/24)

**169**
**PLANT UNIGOL** ar y **GOFRESTR AMDDIFFYN PLANT** (74 ar ddiwedd y flwyddyn, 67 yw cyfartaledd nifer y plant ar y gofrestr trwy gydol y flwyddyn)


**1,793**
**ASESIADAU NEWYDD** wedi eu cwblhau i **OEDOLION** yn ystod y flwyddyn

**418**
**OFALWYR OEDD WEDI EU HASESU** yn ystod y flwyddyn (497 yn 23/24)



# PWY WNAETHON NI EU HELPU A'U CEFNOGI (2024/25)

(*) flwyddyn flaenorol



642 **BLANT WEDI COFRESTRU** gyda **DECHRAU'N DEG** erbyn diwedd y flwyddyn (673 yn 23/24)

Defnyddiodd 176 o **DEULUOEDD** ein gwasanaeth gofal **PLANT DECHRAU'N** Deg yn ystod y flwyddyn. (173 yn 23/24)



Daeth 250 **I'N FFORYMAU POBL HŶN** (yn un o'n 12 fforwm lleol neu ledled yr ynys) yn ystod y flwyddyn

## ADOLYGIADAU MAETHU

10 **ASESIAD MAETHU** (Dwy Ffurflen F, wyth Person â chyswllt)


30 **I BANEL** (12 annibynnol, 18 mewnol)

17 **ASIANTAETH BENDERFYNIAD YN EU CYLCH**

59 **OFALWYR MAETH** mewn 34 o Gartrefi (o'i gymharu â 60 mewn 35 cartref yn 22/23)



1,173 wedi cael **CYNLLUN GOFAL A CHYMORTH**



94 **OFALWYR IFANC** yn **CAEL CEFNOGAETH GWEITHREDU DROS BLANT** ar 31 Mawrth (109 yn 2024)

3,093 **BLANT** i'n **CLYBIAU IEUENCTID** yn ystod y flwyddyn



179 **ACHREDIADAU** wedi eu rho i **BOBL IFANC** - yn amrywio o **AGORED** i **I WOBRAU DUG CAEREDIN**



**MAE'R TÎM GWASANAETHAU** Ieuenctid wedi cael dros 17,600 o gysylltiadau gan bobl ifanc yn ystod y flwyddyn.

700 **BOBL IFANC** wedi cofrestru gydag un o'n **O'N 15 CLWB IEUENCTID** ar draws yr Ynys

Ein
# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
(2024/25)

**CYFANSWM CYLLIDEB Y** Gwasanaethau Cymdeithasol yw

**£53,206,281**

(£48,715,9161 yn 23/24)

Cyllideb y Gwasanaethau
**OEDOLION**
£38,789,694
(£35,593,089 yn 23/24)


Cyllideb y Gwasanaethau
**PLANT A THEULUOEDD**
£14,416,587
(£13,122,827 yn 23/24)

**RYDYM YN CYFLOGI**
**690**
o bobl ar draws y ddau wasanaeth
(717 yn 23/24)

**83%**
o'n gweithwyr yn siarad Cymraeg
(L3 neu uwch)
(85% yn 23/24)



# Arweinyddiaeth a Diwylliant



## Gweledigaeth y cyngor yw creu Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus lle gall pobl ffynnu.

**Mae cydweithio'n allweddol i wireddu ein gweledigaeth. Byddwn yn gyngor parchus sy'n ystyriol o eraill. Byddwn yn cydweithio'n onest ac rydym wedi ymrwymo i safonau uchel o ymddygiad ac uniondeb er mwyn cyflwyno'r ynys a'i chymunedau yn y golau gorau posibl.**

I wireddu'r weledigaeth hon, bydd angen i ni barhau i foderneiddio a thrawsnewid ein gwasanaethau a'n ffordd o weithio. Rhan annatod o foderneiddio fydd gwrando ar farn ein trigolion, ein defnyddwyr gwasanaethau a'n busnesau – a bod yn barod i weithredu.

Byddwch yn darllen cyfeiriadau drwy gydol yr adroddiad hwn yn cysylltu ein cynnydd yn erbyn **chwe Amcan Strategol y Cyngor,** fel y'u nodir yn ein **Cynllun Cyngor 2023-28** (Dolen Cynllun y Cyngor 2023 i 2028).

Drwy drefnu bod ein gwasanaethau a'n cyflawniadau'n cyd-redeg, gallwn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn llwyddo yn ei weledigaeth.

> " Greu Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus lle gall pobl ffynnu".



# Ein chwe amcan strategol

## Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

## Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir.

## Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

## Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.

## Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys.

## Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.



Parch

Gonestrwydd

Cydweithio

Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Fel gwasanaeth, **Llesiant** yw canolbwynt ein holl waith - rhoi'r unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn gan weithio gyda theuluoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau gwell canlyniadau i bawb. Rydym yn parhau i ymdrechu i gael rhagoriaeth, er gwaethaf y ffactorau allanol, heriol, a hynny'n seiliedig ar y gwerthoedd a ganlyn:


**Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth** yn lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mewn adroddiadau arolygu allanol diweddar. mae hyn wedi'i gydnabod yn gryfder ac mae'n parhau i fod yn faes i ni adeiladu arno. Ceir rhagor o enghreifftiau wrth fynd drwy'r adroddiad hwn.

**Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru (NWSSIC) a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRPB)** yn parhau i sicrhau trefniadau llywodraethu. Gellir gweld mwy ar y syniad hwn o bartneriaeth yng nghydweithrediad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader trwy'r **Bwrdd Cyflawni Integredig.** Pwrpas y Bwrdd yma yw parhau i sicrhau y gwasanaethir anghenion iechyd a gofal pobl Ynys Môn yn well trwy integreiddio gwasanaethau'n well rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau awdurdod lleol.

Mae **Fframwaith Cynllunio Corfforaethol a Rheoli Perfformiad** y Cyngor (gweler y diagram isod) wedi'i ymgorffori yn ei drefniadau llywodraethu blynyddol. Mae'r fframwaith hwn wedi'i fabwysiadu i sicrhau y caiff meddylfryd o gael gwelliant parhaus ei ymgorffori yng ngwaith gwasanaethau'r Cyngor a disgwyliadau **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** ddiweddar eu bodloni. Mae hefyd yn cynorthwyo gwaith monitro materion a allai godi cyn i'r gwasanaeth tanberfformio – rhywbeth a fyddai'n cael effaith ar ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau. Byddwch yn darllen sut mae ein perfformiad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol a lleol yn parhau i berfformio'n dda yn ystod y flwyddyn, ac mae hyn yn rhoi sicrwydd bod ein model gweithredu'n berthnasol ac yn gyfredol.

Rydym yn falch o gael dweud bod safon gwaith y gwasanaeth a wnaed gan Wasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn ystod y flwyddyn wedi bod yn gyson ac, yn ystod 2023/24, byddwn yn parhau i adolygu a blaenoriaethu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol mwyaf perthnasol yn lleol, yn seiliedig ar gyfarwyddyd Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod data'r dangosyddion hyn ar gael yn rhwydd er mwyn dadansoddi'r perfformiad yn amserol yn ystod 2024/25, a hyny drwy'r fframwaith a ymgorfforwyd.





# Tim Rheoli Corfforaethol
# Corporate Management Team

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL



# Gweithlu

Gweledigaeth y Cyngor yw creu ***"Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus lle gall pobl ffynnu."*** Yr amcan strategol perthnasol o fewn y Cynllun yw "Gofal Cymdeithasol a Llesiant – ***"sicrhau'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir"***, a noda Strategaeth y Gweithlu sut y byddwn ni, fel gwasanaeth, yn sicrhau bod gennym weithlu medrus, proffesiynol a chyson iawn ar draws y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i helpu i gyflawni'r amcan hwn.

**Mae gan y ddau wasanaeth gyfarfodydd cynllunio gweithlu rheolaidd ynghyd â'n cydweithwyr Adnoddau Dynol a'n Tîm Datblygu, lle trafodir risgiau gwasanaeth a bylchau mewn sgiliau. Mae nifer y gweithwyr a gaiff eu recriwtio i'r Gwasanaethau Oedolion yn gymharol sefydlog, gyda throsiant y llynedd o 8% yn gyson â ffigurau'r trosiant cyfartalog ar draws y Cyngor. 96% oedd cyfraddau cadw gweithwyr ar draws Gwasanaethau Oedolion (gan gynnwys yr Uned Ddarparu). Mae cyfradd trosiant y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn debyg ar 6%, gyda chadw gweithwyr ar 97%.**

Mae heriau recriwtio yn parhau yn ein Huned Ddarparu (sy'n gyfrifol am ein gofal cartref a Chartrefi Gofal Preswyl y Cyngor) ac mae hon yn her genedlaethol yn y sector hwn. Nodir swyddi hanfodol yn barhaus a sicrheir bod cynlluniau olyniaeth ar waith. Bu enghreifftiau llwyddiannus o weithio mewn partneriaeth, megis digwyddiadau recriwtio gyda Chymunedau Cymunedol Môn a'r Adran Gwaith a Phensiynau, Gofalwn Cymru, Camau i'r Maes Gofal gyda Choleg Llandrillo-Menai a'n holl Ysgolion Uwchradd. Mae Cynllun Lleoliadau Gwaith Denu Talent wedi bod yn llwyddiannus gan fod tri myfyriwr wedi mynd ymlaen i fod yn weithwyr i'r Cyngor.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein gweithwyr ein hunain ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi '**cynyddu nifer y lleoliadau**' a gynigiwn i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Prifysgolion i sicrhau bod gan y myfyrwyr brofiadau amrywiol fydd yn eu paratoi ar gyfer y byd gwaith. Rydym yn cofrestru chwe myfyriwr o gwrs MA Gwaith Cymdeithasol Prifysgol Bangor a dau o'r cwrs gradd BA ym Mhrifysgol Wrecsam.

Yn ogystal â'r uchod, rydym yn **noddi cyfanswm o naw hyfforddai Gwaith Cymdeithasol** sydd, ar hyn o bryd, yn cwblhau'r cwrs BA Gwaith Cymdeithasol trwy'r Brifysgol Agored. Mae tri wedi'u lleoli yn y gwasanaethau oedolion a'r gweddill yn ein gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Heb ein cyfleoedd hyfforddi mewnol, mae gennym swyddi gwag gwaith cymdeithasol a byddem yn defnyddio staff asiantaeth.

> "Mae'n amlwg bod y fyfyrwraig yn ymdrechu i ddatblygu ei sgiliau gwaith cymdeithasol ac wedi ymrwymo i'r lleoliad o'r cychwyn cyntaf."
>
> Dyfyniad gan Addysgwr Ymarfer.

“ Dw i’n teimlo fy mod wedi cael cefnogaeth gan fy addysgwr ymarfer sydd wedi rhoi sicrwydd ac arweiniad i mi yn ystod fy 50 diwrnod cyntaf. Dw i’n gwerthfawrogi’r amser sydd gynnon ni yn ystod y cyfnod goruchwylio, gan ganolbwyntio’n arw ar fy lles.”

Dyfyniad gan Fyfyriwr ynghylch Addysgwr Ymarfer.

“ Mae’r holl adborth gan gydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn gadarnhaol ac mae (myfyrwraig) yn medru edrych yn ôl ar ei hymarfer ac mae’n awyddus i barhau i dyfu mewn hyder a gwybodaeth.”

Dyfyniad gan Uwch-weithiwr Cymdeithasol ynghylch Myfyriwr-Gweithiwr Cymdeithasol.



Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y gweithwyr cymdeithasol sy’n cwblhau’r cwrs addysgu ymarfer sy’n gadarnhaol iawn o ran datblygiad proffesiynol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi **noddi tri unigolyn ar y cwrs BA Therapi Galwedigaethol** ym Mhrifysgol Wrecsam. Bydd un o’r gweithwyr yn cymhwyso yn 2025, yr ail yn 2027 a’r trydydd yn 2028. Mae gwaith rhanbarthol yn mynd rhagddo i gadw lleoedd ar y cwrs ar gyfer hyfforddeion mewnol yn ogystal â datblygu’r fframwaith dysgu ôl-ymgeisio.

**Astudiaeth Achos:** Rhoddwyd cyfle datblygu i aelod o staff oedd â dros 23 mlynedd o brofiad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i gwblhau’r rhaglen BSc (Anrh) Therapi Galwedigaethol ym Mhrifysgol Wrecsam. Roedd Rachel wedi gweithio o’r blaen fel Swyddog Cymorth Busnes, Gweinyddwr yn y tîm Anableddau Dysgu, Clerc Cyllid yn y tîm Cyllid Cleientiaid a bod yn Weithiwr Cymorth, gan gefnogi oedolion ag anableddau dysgu. Mae’r cyfle hwn wedi rhoi her newydd iddi symud ymlaen gyda’i gyrfa yn y sector gofal cymdeithasol. Bydd yn ennill cymhwyster proffesiynol fydd yn ehangu ei rhagolygon o ran ei dewisiadau gyrfa yn y dyfodol gyda’r awdurdod lleol.



“ Rydym yn hapus i gefnogi Rachel yn ei chais i fanteisio ar y cyfle hyfforddi Therapi Galwedigaethol. Er ein bod wedi gorfod llenwi ei swydd barhaol er mwyn iddi fynd am hyfforddiant, mae Rachel yn gallu parhau yn ei swydd bresennol wrth gwblhau ei hastudiaethau, a’r gobaith yw y bydd hi’n parhau i weithio gyda’r awdurdod ar ôl cymhwyso. Mae Rachel hefyd yn dilyn cwrs Cymraeg er mwyn sicrhau y gall gefnogi cleientiaid yn y dyfodol trwy eu dewis iaith.”

Emma Edwards, Rheolwr Busnes.

**MÔN SY’N WYBODUS AM DRAWMA**

**TRAUMA INFORMED ANGLESEY**

Rydym yn falch iawn o’n hymrwymiad i ddod yn “**Ynys sy’n Wybodus am Drawma**” a chynnig hyfforddiant a goruchwyliaeth i’n staff er mwyn ymarfer yn y dull hwn. Caiff staff, hefyd, eu hannog i fynd am ragor o hyfforddiant ôl-gymhwyso fel Addysgwyr Ymarfer, TMDP, MMDP sy’n datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth ac yn rhan o’n cynllunio olyniaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae modd gweld **Strategaeth ein Gweithlu Adrannol** trwy’r ddolen isod: https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Swyddi/Partneriaeth-Datblygu-Gofal-Cymdeithasol-Cymru/Strategaeth-Gweithlur-Gwasanaethu-Cymdeithasol-2023-2028.pdf?nocache=1

# Adnoddau Ariannol

## Fel yn y blynyddoedd a fu, rydym wedi wynebu pwysau ariannol sylweddol yn 2024/25.

**Ar ddiwedd y flwyddyn, adroddodd ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd eu bod wedi gorwario £1,943k, tra bod ein Gwasanaethau Oedolion wedi adrodd ar danwariant o £(931k).**

Mae'r gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal wedi gorwario £2,429k. Mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw ac, er ein bod yn parhau i ddatblygu ein darpariaeth Cartrefi Clyd, bydd angen i ni bob amser gael darpariaeth fwy arbenigol. Mae cost wythnosol gyfartalog lleoliadau y tu allan i'r sir wedi cynyddu o £6,547.85.92 yn 2023-24 i £8,390.09 yn 2024-25.

Rydym wedi bod yn ystyried yn rhagweithiol ein holl gostau maes gwasanaeth a'n cyllideb wrth wneud arbedion lle bo modd. Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Gwaith am gytuno i gynyddu cyllideb Plant a Theuluoedd i £17,602,413 ar gyfer 2025/26 er mwyn bodloni'r galw presennol.

Roedd tanwariant o £(136k) ar Reoli a Chymorth Gwasanaethau i Oedolion ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd grant ychwanegol o (£43k) o Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol a (£68k) o Cysylltu Gofal (£298,049 oedd cyfanswm y Grant Cysylltu Gofal ar gyfer y flwyddyn).

Roedd gofal preswyl i bobl hŷn wedi tanwario o £(396k) erbyn diwedd y flwyddyn a gofal nyrsio i bobl hŷn wedi gorwario o £97k erbyn diwedd y flwyddyn. Gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw yw'r rhain ac mae gwaith yn cael ei wneud yn barhaus i fonitro gwariant.


Anabledd Corfforol – gorwariant o £595k ar ddiwedd y flwyddyn, ar ôl defnyddio £(332k) o'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

Anableddau Dysgu – tanwariant o (£110k) erbyn diwedd y flwyddyn, ar ôl defnyddio £(394k) o'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol.


Gyda chwyddiant yn parhau'n uwch na'r disgwyl, y disgwyl yw y bydd Cyflog Byw Go Iawn yn codi'n gyflymach nag a ragwelwyd yn y cynllun ariannol tymor canolig. Gallai hyn arwain at bwysau ariannol ychwanegol yn ystod 2025/2026 a thu hwnt.

Dyfarnwyd grantiau ychwanegol yn hwyr yn y flwyddyn ariannol am 2024/25 ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Mae hyn yn cynorthwyo'r gwasanaeth i gadw at y gyllideb.

Rydym yn bwriadu adolygu ymarfer cyllidebu sero a gynhaliwyd yn ystod 2024-25 a'i diweddaru, gyda'r nod o gysoni'r cyllidebau cymaint â phosibl. Y gobaith yw y bydd y gwariant gwirioneddol yn nes at y gyllideb yn y dyfodol.



| GWASANAETHAU | Cyllideb £000 | Gwirioneddol £000 | Amrywiant £000 |
|---|---|---|---|
| GWASANAETHAU PLANT a THEULUOEDD | *14,416* | *16,359* | *1,943* |
| GWASANAETHAU OEDOLION | | | |
| POBL HŶN | *13,243* | *13,125* | *(118)* |
| ANABLEDDAU CORFFOROL | *3,387* | *3,982* | *595* |
| ANABLEDDAU DYSGU | *10,097* | *9,987* | *(110)* |
| IECHYD MEDDWL | *3,227* | *2,989* | *(238)* |
| GWASANAETHAU CYMORTH | *1,633* | *1,497* | *(136)* |
| UNED DDARPARU (GOFAL MÔN / GWASANAETHAU ERAILL) | *7,202* | *6,278* | *(924)* |
| **CYFANSWM** | ***38,789*** | ***37,858*** | **(931)** |



# Asesu Perfformiad

Yn yr adran hon, byddwn yn rhoi trosolwg o'n perfformiad o dan y pedwar pennawd **Safon Ansawdd** sef **Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio, a Llesiant.** Byddwn yn gwerthuso ein perfformiad dros y deuddeg mis diwethaf drwy fynd i'r afael â'r ***wyth safon ansawdd*** o dan y pedair adran hyn ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion.

## Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

### Pobl

**Safonau Ansawdd:**

- *"Mae pawb yn bartneriaid cyfartal sydd â **dewis, llais a rheolaeth** dros eu bywydau ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt"*
- *"Mae **arweinyddiaeth** effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus, cymwys a chefnogol iawn sy'n gweithio tuag at weledigaeth gyffredin."*

**Maethu Cymru Môn**

Mae'r Tîm Lleoli Plant yn parhau i weithio mewn cydweithrediad â Maethu Cymru, ochr yn ochr â'r un ar hugain o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru o ran recriwtio a chadw gofalwyr maeth. Mae nifer o ddarpar ofalwyr maeth newydd yn y broses o gael eu hasesu a'r gobaith yw y cânt eu cymeradwyo yn ddiweddarach eleni. Rydym yn gweithio gyda Maethu Cymru i ganolbwyntio ar recriwtio gofalwyr maeth ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, Amser Ni (Seibiannau Byr), siaradwyr Cymraeg a phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches (UASC).

maethu cymru Môn | foster wales Anglesey



Mae Maethu Cymru yn galw ar fwy o bobl i roi eu henwau ymlaen, gyda 7,000 o blant mewn gofal ledled Cymru a dim ond 3,800 o deuluoedd maeth. **Y nod yw recriwtio 800 mwy o ofalwyr erbyn 2026.**

I ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'n Gwasanaeth Maethu, ynghyd â newyddion a diweddariadau, gweler

https://facebook.com/maethumon

Grŵp yn ymgymryd â her ddringo 200 milltir er mwyn cefnogi pobl ifainc mewn gofal

Rhaglen arloesol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gyflwynir gan y Rhwydwaith Maethu yw **Maethu Lles**. Mae'r rhaglen yn cydnabod bod gweithio'n amlasiantaethol trwy fframwaith partneriaeth ar draws gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg yn hanfodol i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc,. Mae Maethu Lles wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal. Maethu Lles

# CYNHADLEDD LLESIANT MAETHU 2025






Mynychodd nifer ohonom gynhadledd **Llesiant y Rhwydwaith Maethu** yng ngwesty'r Deganwy Quay yng Nghonwy ym mis Chwefror. Daethpwyd â dros 100 o bobl o bob rhan o'r sector maethu at ei gilydd yng ngogledd Cymru a bu'n ddiwrnod arbennig, yn gyfle i ddysgu, rhannu a dathlu'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud er mwyn cefnogi plant sydd a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yma yng Nghymru.

Diolch o galon i'r holl siaradwyr a oedd yn cynnwys ein Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Fon Roberts ynghyd â'n Rheolwr Gwasanaeth Sharon Williams gan wedyn orffen ar nodyn doniol ac ysbrydoledig yng nghwmni'r comedïwr Kiri Pritchard-McLean a oedd yn cynnal y **Gwobrau Llesiant Maethu**.

Roedd yn braf clywed am gyfraniadau rhagorol unigolion a thimau sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i faethu ar draws Cymru, yn cynnwys rhai rhagorol o Ynys Môn!

Felly, llongyfarchiadau i'n henillwyr haeddiannol, Brian Lawlor, Dee Roberts, a Sorrel Roberts - am dderbyn gwobrau fel cydnabyddiaeth o'ch cyfraniadau rhagorol i faethu yn Ynys Môn.

*Yn y llun uchod mae Kiri (chwith), Sorrell (top canol) a Brian (canol gwaelod) efo Gemma Struthers o'r Rhwydwaith Maethu (dde).*



Mae'r **Panel Rhianta Corfforaethol**, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, wedi parhau i gryfhau yn ystod 2024/25. Mae aelodau etholedig a ymunodd â'r panel yn dilyn etholiadau 2023 wedi parhau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u profiad o'r materion y mae plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn eu hwynebu. Fel hyn, mae modd i aelodau etholedig herio swyddogion yn effeithiol.

Yr hyn sydd o bwys, yw cryfhau **'llais y plentyn'**. Mae gennym bobl ifanc sy'n mynd i'n Panel Rhianta Corfforaethol ac yn rhannu eu profiadau o fod yng ngofal yr Awdurdod Lleol. Mae aelodau ein panel, hefyd, yn cael gwahoddiad i fynd i'n gweithgareddau niferus lle gallant gwrdd â'n Plant Profiadol mewn Gofal mewn lleoliadau llai ffurfiol.

Rydym, hefyd, wedi croesawu **cynrychiolydd gofalwyr maeth** newydd o Maethu Cymru Môn, sy'n gaffaeliad i'r panel. At hyn, rydym, hefyd, wedi cael mewnbwn gan yr Ysgol Rithiol, y Gwasanaeth Gadael Gofal, y Gwasanaeth Iechyd yn y Panel Rhianta Corfforaethol ac mae'r panel wedi cytuno ar 'flaen-gynllun' i sicrhau y byddir yn craffu'n effeithiol ar berfformiad wrth symud ymlaen.



**Gorchmynion Rhyddhau Gofal** – mae'r Gwasanaeth wedi defnyddio Grant Llywodraeth Cymru i leihau'n ddiogel nifer y plant sy'n destun gorchmynion gofal ac wedi'u lleoli gyda rhieni. Yn sgil hyn, bu gostyngiad o dros ugain o blant mewn gofal cyhoeddus yn ystod y flwyddyn.

Mae **Taliadau Uniongyrchol** yn fodd hanfodol o gynorthwyo pobl i ganiatáu i'r plentyn a'r teulu gael ansawdd bywyd gwell. Thema gyffredin gyda Thaliadau Uniongyrchol yn ein Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yw **darparu Seibiant** i rieni fel eu bod yn gallu neilltuo amser i'w plant eraill oherwydd y gofynion uwch y gallai un plentyn eu cael oherwydd ei anghenion / anabledd. Mae Taliadau Uniongyrchol yn fodd i'r teulu a'r derbynnydd gael dewis o ddarparwyr sy'n cyd-fynd â'u hanghenion, megis iaith a ffordd o fyw ac yn fodd iddynt aros yn eu cymunedau. **Ym mis Mawrth 2025, roedd gennym 198 o oedolion a 42 o blant oedd yn cael budd Taliadau Uniongyrchol.**

Mae'r **Cynnig Rhagweithiol (Eiriolaeth gefnogol)** yn opsiwn pwysig i blentyn sy'n mynd i ofal neu'n wynebu'r rhestr Amddiffyn Plant, gan y gall fod yn gyfnod llawn straen a phryder i blentyn, yn enwedig os yw eisoes wedi dioddef trawma. Bydd cael person annibynnol i wrando a gweithredu ar fuddiannau gorau plentyn yn rhoi mwy o hyder iddo fynegi ei ddymuniadau a'i deimladau na siarad â Gweithiwr Cymdeithasol neu Ddarparwr Gofal; hyn oll wrth sicrhau bod y plentyn yn derbyn yr hawliau sydd ganddo, hefyd. **Yn ystod Blwyddyn Ariannol 2024/25 gwnaed cyfanswm o 17 o Gyfeiriadau Cynnig Rhagweithiol, sydd ychydig yn uwch na'r 15 a wnaed y llynedd.** Roedd cyfanswm o 122 o Blant yn gymwys ar gyfer Cynnig Rhagweithiol trwy naill ai ddod yn Blant sy'n Derbyn Gofal neu fynd ar y Gofrestr Diogelu Plant; sy'n dangos bod 86% o'r plant wedi gwrthod cwrdd â'u Heiriolwr. Derbyniodd pump o blant y Cynnig Rhagweithiol o gefnogaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn ystod y flwyddyn hon. Rydym yn parhau i hyrwyddo ac annog y cynnig rhagweithiol hwn.

## Atal

**Safonau Ansawdd:**

- *"Caiff angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf a thwf angen ei **atal** rhag cynyddu wrth sicrhau cyflawni'r **canlyniadau** gorau i bobl"*
- *"Caiff **cadernid mewn cymunedau** ei hyrwyddo a phobl eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy fynd ati i gefnogi pobl sydd angen gofal a/neu gymorth, gan gynnwys **gofalwyr**, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas"*

Yn ystod y flwyddyn cafwyd cyfanswm o 4886 o gyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o'i gymharu â 4059 yn 2023/24, sef cynnydd o 20%. Yn naturiol, mae'r cynnydd yn nifer y cyfeiriadau wedi'i weld ar draws y Gwasanaeth wrth i'r llwyth gwaith gynyddu. O'r cyfeiriadau a dderbyniwyd, yr Heddlu sy'n parhau i gyflwyno nifer fwyaf y cyfeiriadau gyda 41%, ac yna ysgolion Ynys Môn, oedd yn cyfrif am 14.89% o gyfanswm cyfeiriadau. Cost byw yw un rheswm pam ein bod yn gweld cynnydd sylweddol yn ein cyfeiriadau.

**Asesiadau Plant - bu cynnydd yn y nifer a gwblhawyd, o 464 yn 2023/24 i 598 eleni.** Er gwaethaf hyn, **mae'r ganran a gwblhawyd o fewn y 42 diwrnod wedi gwella, i fyny i 92%**. O'r Plant a gafodd Asesiad, byddai 56 yn cael eu symud ymlaen i Gynllun Gofal yn dilyn yr Asesiad; nid oedd gan 116 unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu. Byddai anghenion y mwyafrif (426) yn cael eu diwallu drwy ddulliau erail,l gyda Gwasanaethau megis Tîm o Amgylch y Teulu, Teuluoedd Cydnerth neu CAMHS i enwi ond rhai.

At hyn, **cwblhawyd 71 o Asesiadau Gofalwyr Ifanc o fewn y flwyddyn gan Gweithredu dros Blant ar ran yr Awdurdod.** O'r 71, diwallwyd anghenion 43 gyda Chynllun tra bod anghenion 28 wedi'u diwallu drwy ddulliau eraill.

**Gwasanaeth Ieuenctid ac Ymgysylltu** – Yn sgil derbyn cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae darpariaeth **Caffi Clwb Ieuenctid "Hive"** wedi parhau a datblygu ymhellach gyda thua 40 o bobl ifanc 14-16 oed yn mynd yn wythnosol – mae hyn yn ogystal â'r clybiau ieuenctid arferol. Mae'r lleoliad wedi bod yn lle diogel i bobl ifanc, gydag amrywiaeth o weithgareddau'n digwydd – ond yn canolbwyntio ar lesiant, datblygu sgiliau sy'n ymwneud â dysgu cymdeithasol ac emosiynol, datblygu perthnasoedd iach a gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol, megis yr heddlu. Yn ogystal, mae Gweithwyr Ieuenctid Ysgol wedi datblygu rhaglen "Llwyddo" ym maes lles ac iechyd meddwl – cwrs wedi'i dargedu hyd at 12 wythnos gydag achrediad Agored Cymru sydd hefyd yn defnyddio'r dull Rhith-realiti (gweler y cyfeiriad blaenorol). Mae hyn, bellach yn cael ei gynnig ar draws y pum Ysgol Uwchradd ac yn cyfrannu at fframwaith cymwysterau pobl ifanc.

**Datblygiad Proffesiynol Rhith-realiti–** Mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn pecyn hyfforddi VR ar gyfer codi ymwybyddiaeth o drawma a, hefyd, feysydd penodol megis dementia, cyffuriau a throseddau wrth ddefnyddio cyllyll. Mae 15 aelod o staff wedi cael rhagor o hyfforddiant i gyflwyno rhaglen ar gyfer y 12 mis nesaf ar draws y Cyngor.

Myfyrwyr Ysgol David Hughes yn cymryd rhan yn y profiad rhith-realiti.



## Partnership and Integration

**Safonau Ansawdd:**

- *"Mae **partneriaethau** effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl **integredig** o ansawdd uchel i bobl"*

- *"Caiff pobl eu hannog i fod yn rhan o waith dylunio a chyflenwi eu gofal a'u cymorth fel **partneriaid cyfartal**"*

MÔN SY'N WYBODUS AM DRAWMA
TRAUMA INFORMED ANGLESEY

Fel rhan o'n taith i ddod yn **Ynys sy'n Wybodus am Drawma** mae gennym bellach dros 700 o staff o bartneriaid statudol, y trydydd sector, aelodau etholedig a sefydliadau cymunedol. Mae gofalwyr maeth wedi cymryd rhan mewn ymyraethau/dysgu proffesiynol sy'n wybodus am drawma, o sesiwn 1 diwrnod i achrediadau llawn, fydd yn helpu i gefnogi ein plant, ein pobl ifanc a'n teuluoedd. Mae'r ffigur hwn yn tyfu o wythnos i wythnos.

Mae dros 70% o'n gofalwyr maeth prif ffrwd bellach wedi pasio'r Diploma Bod yn Wybodus am Drawma i Ofalwyr Maeth (gweler y llun isod). Dyma'r cyntaf o'i fath yng Nghymru ac mae adborth gan ein Gofalwyr Maeth wedi bod yn gadarnhaol gydag un gofalwr maeth yn dweud,




*"Dwi'n awyddus i gael hyfforddi cymaint o bobl â phosibl mewn trawma, oherwydd os ydym i gyd yn gweithio o'r un Sylfaen, yna bydd gan y rhai sydd wedi profi trawma ganlyniadau gwell. Mae hyn yn mynd drwy'r gwasanaeth sifil, tai, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaeth ieuenctid, prawf, yr heddlu, parafeddygon, pawb."*

Mae hyfforddiant ar y gweill i Heddlu Gogledd Cymru, Ynys Mon a'n staff Cartrefi Clyd; hyfforddiant sydd, hefyd, yn ymgorffori model Goruchwylio Gwybodus am Drawma ar gyfer ein holl Gartrefi Clyd. Rydym, hefyd, yn falch o'r Cynghorydd Dyfed Jones, y deilydd portffolio, wrth ddilyn ôl troed y Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd y Cyngor, wrth gwblhau'r Diploma Bod yn Wybodus am Drawma.

Rydym yn bwriadu ymweld â phob Ward ar Ynys Mon yn ystod 2025/26 gan fynd â'n gwaith Gwybodus am Drawma i'r cymunedau. Bydd hyn yn fodd i ni ddod yn Ynys sy'n gwbl Wybodus am Drawma a bydd y gwaith mapio presennol yn cynorthwyo i fesur effaith y gwaith hwn dros y blynyddoedd nesaf.




https://youtu.be/5Cw5tSK4ROo







https://youtu.be/wGc2b66eYho

**Rhaglen Newydd Grymuso Ieuenctid** – Yn gynllun peilot cychwynnol yn Ysgol David Hughes, fel rhan o'r cynnig ieuenctid wedi'i dargedu, rydym wedi cynnal y **"Rhaglen Mentora Ieuenctid"** 12 wythnos mewn partneriaeth. Gweithiodd y cynllun peilot gydag wyth o ddysgwyr 11-16 oed dros 12 wythnos. Cwricwlwm strwythuredig yw hwn, wedi'i gynllunio i rymuso pobl ifanc gyda sgiliau bywyd hanfodol mewn gwydnwch, rheoleiddio, myfyrio, hyder, cymhelliant a datblygu eu deallusrwydd emosiynol yn unol â'n fframwaith trawma. Cyflwynir y rhaglen trwy weithgaredd grŵp bychan ac yn ogystal â gwaith a chefnogaeth 1 i 1. Mae'r rhaglen, hefyd, wedi'i hachredu trwy "Agored Cymru" a'n Gwasanaeth Ieuenctid mewnol mewn perthynas â chanlyniadau ac allbynnau. Oherwydd ei llwyddiant, mae'r rhaglen wedi'i hymestyn i bob ysgol uwchradd ar yr ynys. Am ragor o wybodaeth, gweler yr Astudiaeth Achos yn Atodiad C.

## Llesiant

**Safonau ansawdd:**

- *"Mae pobl yn cael eu hamddiffyn a'u* ***diogelu*** *rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed"*
- *"Mae pobl yn cael cefnogaeth i fynd ati i* ***reoli eu lles*** *a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a* ***byw'n annibynnol*** *cyhyd â phosibl"*

Fel gyda rhannau eraill o'r Gwasanaeth, **mae gofynion Diogelu wedi cynyddu'n sylweddol gyda nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol yn cynyddu bron i 25%**. Gellir priodoli'r cynnydd i lawer o ffactorau, megis Camddefnyddio Sylweddau, Trais Domestig ac Iechyd Meddwl, i enwi ond rhai. Wrth gwrs, gyda mwy o Gyfarfodydd Strategaeth yn cael eu cynnal, mae nifer y Cyfarfodydd Adran 47 yn cynyddu, ond yr hyn sy'n syfrdanol yw pan fyddwn yn eu hystyried, nid fel ffigurau ond fel canrannau, mae dros 50% yn mynd ymlaen i Adran 47 o'i gymharu â 38% y llynedd.

Mae nifer y **Cynhadleddau Diogelu Plant Cychwynnol wedi cynyddu hefyd, gyda 131 yn cael eu cynnal yn 2024/25**. O'r rheini, roedd 128 wedi'u cofrestru, gyda thri ddim yn cyrraedd y trothwy. Esgeulustod oedd y prif reswm dros gofrestru ac, yna, Gamdriniaeth Gorfforol ac, wedi hynny, Gamdriniaeth Emosiynol, gyda 5 i 9 y grŵp oedran mwyaf. **Ddiwedd y Flwyddyn Ariannol hon, roedd 74 ar y Gofrestr o'i gymharu â 41 y llynedd**. Er gwaethaf y niferoedd cynyddol, ni ailgofrestrwyd unrhyw blentyn o fewn 12 mis ac roedd nifer y dyddiau y bu pob plentyn ar y gofrestr yn isel.

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol ar gyfer plant a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn gasglu | 930 | 746 |
| Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a esblygodd yn ymholiadau Adran 47 | 478 | 283 |
| Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a aeth ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol | 131 | 57 |

**Cartrefi Clyd** - Erbyn hyn, mae gennym bedwar Cartref Clyd ar draws yr ynys ac rydym yn buddsoddi mewn eiddo seibiant pwrpasol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Mae'r eiddo seibiant yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd a'r gobaith yw agor ei ddrysau erbyn diwedd haf 2025. Rydym yn chwilio am dri lleoliad arall ar Ynys Môn ar gyfer ein Cartefi Clyd.

Mae ein **Huned Cymorth i Deuluoedd** wedi cynnal **Asesiad Digonolrwydd Chwarae** ac mae swydd newydd, a ariennir gan gyllid y **Gronfa Ffyniant Gyffredin**, wedi cryfhau gwaith cydlynu ar draws y Cyngor a chyda phartneriaid allanol. Mae rhaglenni Llywodraeth Cymru, megis **Dechrau'n Deg** a **Chymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys** yn parhau i gefnogi ein teuluoedd bregus. Mae rhaglenni rhianta

ar gael yn gyson i rieni a gofalwyr ar draws yr Ynys. Mae nifer o staff a phartneriaid y Cyngor wedi derbyn hyfforddiant yn y rhaglen flaengar **"Triple P"** i gefnogi teuluoedd o'r cychwyn cyntaf. Mae rhaglenni gofal plant yn parhau i gefnogi rhieni i leihau costau gofal plant a chael at waith, megis "Y Cynnig Gofal i Blant 2 Oed".

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn **cryfhau'r Gwydnwch o fewn y Tîm Diogelu a Sicrhau Ansawdd**. Rydym wedi ailstrwythuro'r tîm hwn yn dilyn yr Archwiliad Mewnol ar y tîm a, thrwy wneud hyn, rydym wedi datblygu mwy o wydnwch yn y tîm a chael cysondeb ar draws y gwasanathau Oedolion a Phlant a Theuluoedd ac wedi **cryfhau cadernid y tîm trwy greu rôl Arweinydd Ymarfer** yn y tîm. Mae'r rôl hon yn gyfrifol am oruchwylio a chefnogi'r Swyddogion Adolygu Annibynnol. Bydd hyn yn fodd i'r Rheolwr Gwasanaeth ganolbwyntio ar y gwaith strategol ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn gorfforaethol.

**Dull Integredig Addysg Ein Plant** - Cawsom gyfres o "Grantiau untro" gan Lywodraeth Cymru i **greu ein hysgol rithwir ar Ynys Môn** ac, ar hyn o bryd, mae gennym athro arbenigol wedi'i secondio yn ei swydd am y drydedd flwyddyn. Rhaid i'r secondiad hwn ddod i ben ym mis Mawrth 2026 gan nad oes gennym unrhyw gyllid ar ôl hyn. Ar hyn o bryd, mae'r athrawes yn treulio 70% o'i hwythnos waith yn addysgu'n uniongyrchol ein Plant â Phrofiad o Ofal gan nad ydynt yn yr ysgol oherwydd 1/ amserlenni llai 2/ cael eu gwahardd 3/ rhesymau eraill.

Gweithio gyda'n cydweithwyr yn y Gwasanaeth Addysg ac ysgolion lleol i ddatblygu dull gwahanol o waharddiadau ysgol. Daw rhywfaint o'r cynnydd yn y galw am wasanaethau yn sgil ysgolion yn lleihau amserlen plentyn neu'n gwahardd plant. Rydym yn fodlon cynnig cefnogaeth i ysgolion yn gynt. Fodd bynnag, bydd hyn yn newid diwylliant ysgolion a bydd angen dyfalbarhad sylweddol.

Fel rhan o'r dull ysgol rithwir yn Ynys Môn, fe wnaethom drefnu prom ar gyfer ein pobl ifanc blwyddyn 11 nad oedd yn medru mynd i'w prom ysgol. Trefnwyd hyn gan staff cymorth busnes, gweithwyr cymdeithasol, staff addysg a gofalwyr maeth mewn cydweithrediad â chyflogwr lleol - Chateau Rhianfa.

Cafwyd caniatâd y bobl ifanc (sydd i gyd yn edrych yn wych!) i rannu llun:



# Blaenoriaethau ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd 2025/26 yw:

| Maes i'w Wella | Camau Gweithredu i'w Gwella | Canlyniadau (sut y bydd yn cyfrannu at nod strategol Cynllun y Cyngor) | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| **System TG Cysylltu Gofal (blaenoriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol)** | Rheoli gwaith cyflwyno System Monitro Gofal Cymdeithasol Mozaic newydd. | Bydd y system newydd yn cynorthwyo i gefnogi Staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i reoli a chofnodi eu gwaith a bydd yn cynorthwyo i rannu data gyda phartneriaid eraill (Cam 2) | Mehefin 2026 I'w gadarnhau |
| **Cynyddu nifer y Gofalwyr Maeth Cymraeg eu Hiaith** | Rydym wedi adolygu ac ail-lansio ein pecyn Gofal Maeth i ddenu mwy o ofalwyr maeth, gyda phwyslais ar siaradwyr Cymraeg. | Sicrhau bod gan ein plant a'n pobl ifanc gyfle i aros yn eu cymuned eu hunain, gan ddefnyddio eu dewis iaith, lle bo'n bosibl. | Mawrth 2026 |
| **Peilot Deallusrwydd Artiffisial yn y Tîm Diogelu a Chymorth Busnes** | Treialu'r defnydd a wneir o ddeallusrwydd artiffisial i gynorthwyo gyda chymryd nodiadau/ cofnodion yn ystod cyfarfodydd y cytunwyd arnynt, gyda'r nod o leihau'r angen am gymorth gweinyddol. | Gweithio gyda chydweithwyr TG corfforaethol i gytuno ar y dechnoleg a'r canllawiau. Gweithio gyda'r Swyddog Diogelu Data i sicrhau bod y peilot yn cael ei reoli'n ddiogel o ran prosesu a rhannu data. Treialu'r Dechnoleg a monitro yn erbyn cymryd nodiadau dynol i sicrhau cywirdeb. | Mawrth 2026 |
| **Rhestrau Aros** | Mae llawer o wybodaeth wedi'i hysgrifennu am restrau aros hir, yn enwedig ar gyfer timau niwroddatblygiadol ledled Cymru. Mae rhai plant a phobl ifanc yn Ynys Môn ar y rhestr am tua pedair i bum mlynedd. Gall yr aros hir hwn gael effeithiau sylweddol ar fywydau plant, ychwanegu at y pwysau a'r straen y mae teuluoedd yn ei brofi ac, mewn rhai achosion, achosi i'r teulu chwalu gan arwain at blant yn cael eu rhoi yn y system ofal. | Ein nodau fydd gweithio gyda phartneriaid y GIG lle ceir rhestrau aros i edrych ar ffyrdd o wella prosesau i gyfyngu ar yr amser aros. | Mawrth 2026 |



| Maes i'w Wella | Camau Gweithredu i'w Gwella | Canlyniadau (sut y bydd yn cyfrannu at nod strategol Cynllun y Cyngor) | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| **Ystyried y galw cyfredol a sut i fodloni'r galw hwn yn ddiogel ac o fewn canllawiau statudol** | Byddwn yn cynnal adolygiad o arferion gwaith presennol gan ystyried llwythi achosion cyfredol, gofynion oriau hyblyg, lefelau salwch ac ati ar staff a gweld sut y gallem ddefnyddio staff, nad ydynt wedi cymwyso, mewn rhai meysydd ac ati. | Bydd adroddiad mewnol dan arweiniad y Cyfarwyddwr yn ystyried yr holl opsiynau a chynhelir trafodaeth gyda'r Tîm Arwain ac Aelodau Etholedig. | Medi 2025 |
| **Sicrhau bod ein gwasanaeth cymorth ieuenctid yn gyson â fframwaith newydd Estyn gan ganolbwyntio ar adnoddau digidol a staffio o ansawdd i ddiwallu anghenion lleol.** | Cynnal archwiliad o'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth bresennol<br><br>Dim data cyfredol ar ddadansoddiad sgiliau staff<br><br>Ansawdd y gwasanaeth - Arsylwi'n Uniongyrchol weithgareddau/darpariaeth<br><br>Nodwyd bod angen cael system TG i ddarparu | Bydd Hunanasesiad Mewnol yn cael ei gwblhau i nodi camau gweithredu i wella canlyniadau. System TG UPSHOT newydd i gyd-fynd â'n cynnig i bobl ifanc, gyda dull digidol o gofrestru pob person ifanc. | Medi 2025 |
| **Cyflwyno rhaglen Llywodraeth Cymru i ehangu gofal plant i bob plentyn 2 oed** | Penodi rheolwr rhaglen a staff cefnogol<br><br>Datblygu adnodd i gofrestru plant ac olrhain presenoldeb, anfonebu effeithlon ar gyfer y sector gofal plant.<br><br>Monitro ansawdd gofal plant yn unol â Chanllawiau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru<br><br>Hyrwyddo a chefnogi lleoliadau gofal plant i ddod yn gyfrwng Cymraeg/dwyieithog. | Fel model ymyrraeth gynnar, bydd gan bob plentyn dwy i dair oed oed y cyfle gorau i ffynnu. Bydd pob darparwr gofal plant yn siarad Cymraeg neu'n ddwyieithog, fel bod modd i bob plentyn ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Gwella cyrhaeddiad addysgol a chyflawniad plant a phobl ifanc, trwy gefnogi eu lles, ynghyd â sicrhau cyfleoedd ehangach i ddysgu a ffynnu. Cefnogi economi'r sector gofal plant a busnesau lleol i dyfu a ffynnu, gan gefnogi rhieni/gofalwyr gyda chostau gofal plant i gael gwared ar ofal plant fel rhwystr i weithio | Ebrill 2028 |



# Gwasanaethau Oedolion

Cyflwynodd y gwasanaeth ei 'Gynllun Strategol, Moderneiddio Gwasanaethau i Oedolion 2024-29', a chafodd hwn ei gymeradwyo gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor gyda'r meysydd blaenoriaeth allweddol fel a ganlyn:

1. **Cydweithio i fod yn ynys oed-gyfeillgar – drwy weithgareddau ataliol.**
2. **Trawsnewid gwasanaethau dydd – parhau â chamau cadarnhaol i gynnal gweithgareddau dydd mewn lleoliadau cymunedol.**
3. **Tai â Chymorth (anableddau dysgu) – i wneud y mwyaf o 'Tai â Chymorth' a'i foderneiddio er mwyn sicrhau effeithiolrwydd.**
4. **Gwasanaeth seibiant (anableddau dysgu) – nodi a datblygu darpariaeth newydd addas.**
5. **Tai gofal ychwanegol – datblygu tai gofal ychwanegol i gynyddu cyfleoedd i bobl fyw'n annibynnol yn y gymuned am gyfnod hwy.**
6. **Cartrefi preswyl y cyngor – dargyfeirio adnoddau ariannol i ddarpariaethau fforddiadwy a chost-effeithiol sy'n diwallu anghenion.**
7. **Datblygu gwasanaethau sy'n ariannol gynaliadwy.**



Ynys Môn Oed-Gyfeillgar
Age Friendly Anglesey



# Pobl

**Safonau Ansawdd:**

- *"Mae pawb yn bartneriaid cyfartal sydd â **dewis, llais a rheolaeth** dros eu bywydau ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt"*
- *"Mae **arweinyddiaeth** effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda **gweithlu** medrus iawn, cymwys a chefnogol sy'n gweithio tuag at weledigaeth a rennir".*

**Cynhadledd Dementia Ynys Môn 2024**
ddydd Mercher 20fed o Dachwedd, cynhaliodd Ynys Môn ei Chynhadledd Dementia gyntaf. Daeth 75 o bobl i'r gynhadledd, pobl sy'n byw gyda Dementia, eu gofalwyr, gwirfoddolwyr yn y gymuned a gweithwyr proffesiynol. Cafwyd cyflwyniad gan Gymunedau Dementia-gyfeillgar, Canolfan Dementia Ynys Môn, Canolfan Glanhwfa, Caban, a Heddlu Gogledd Cymru.

Mae ehangu'r defnydd a wneir o adnoddau cymunedol er mwyn **annog integreiddio yn y gymuned** yn flaenoriaeth i'r **gwasanaeth Anableddau Dysg**u. Mae'r gwasanaeth wedi treialu hyn gan ddefnyddio Hybiau Cymunedol, ac wedi ymgysylltu yn ardal Caergybi, gan gael adborth cadarnhaol gan y rhai a fu yno. Mae pobl yn gwerthfawrogi cael cynnig amrywiaeth o weithgareddau ac mae hynny'n **arwain at brofiadau gwell a mwy o ddewis a rheolaeth**. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon ar gyfer Gweithgareddau Dydd, mae'r awdurdod wedi cymeradwyo proses drawsnewid o ran darpariaeth yn y gymuned, gan drosglwyddo adnoddau i hwyluso gwaith datblygu mwy ar adnoddau cymunedol. Yn ogystal â hyn, rydym wedi buddsoddi mewn gwella cyfleusterau awyr agored yng Nghors Felin. Roedd hyn yn cynnwys datblygu mannau diogel, a gardd synhwyraidd, yn adroddiad y llynedd. Ein bwriad yw buddsoddi i wella ansawdd y gwasanaethau dros y blynyddoedd nesaf er mwyn datblygu a gwella mwy ar y gwasanaeth a chreu cyfleoedd i unigolion ddatblygu sgiliau newydd.

Mae gan y gwasanaeth gynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid a gwella **opsiynau llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu**, trwy raglen o ddatblygiadau newydd. Gan weithio ochr yn ochr â'n **Hadran Dai a chymdeithasau tai lleol**, rydym wedi gallu buddsoddi mewn sawl cynllun ac rydym yn parhau i ddatblygu cynlluniau er mwyn uwchraddio mwy o eiddo yn unol â chyfalaf yr adran. Y disgwyl yw y bydd y cynlluniau yr ydym wedi buddsoddi ynddynt dros y 24 mis diwethaf yn ymarferol erbyn haf 2025.

**Taliadau Uniongyrchol** – Bu **cynnydd o 18% yn y defnydd a wneir o Daliadau Uniongyrchol yn y tair blynedd diwethaf gyda'r ffigur ar ddiwedd 2024/25 yn sefyll ar 284, o'i gymharu â 239 dair blynedd yn ôl**. Mae hwn yn duedd gadarnhaol iawn ac un y gallwn ei weld yn parhau gan ei fod yn cefnogi'r defnydd a wneir o ofalwyr anffurfiol, gan roi'r opsiwn i'r dinesydd ddewis darparwr y maent yn ymddiried ynddo ac yn teimlo'n gyfforddus ag ef, yn hytrach na chael eu neilltuo iddo. Gyda phoblogaeth gref o siaradwyr Cymraeg, mae taliadau uniongyrchol yn fodd i ddefnyddwyr gyflogi gofalwyr Cymraeg eu hiaith, gan ddiogelu iaith a hunaniaeth ddiwylliannol yn eu darpariaeth gofal. Mae hyn, hefyd, yn ategu ymrwymiad Ynys Môn i Safonau'r Iaith Gymraeg.

**Eiriolaeth** – Mae nifer yr oedolion sy'n cael cynnig eiriolaeth wedi cynyddu'n gyson yn ystod 2024/25 gyda chynnydd o 24% yn y gallu i nodi'r angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol, Roedd y cyfanswm a nodwyd yn 2024/25 yn 138 o'i gymharu â 111 dair blynedd yn ôl. Ochr yn ochr â hyn, gwelwn gynnydd yn nifer yr eiriolwyr ffurfiol sydd ar gael, gyda chynnydd o 22% dros y dair blynedd diwethaf. 88 oedd y ffigur yn ystod 2024/25.



## Atal

**Safonau ansawdd:**

- *"Caiff angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf a thwf angen ei atal rhag cynyddu wrth sicrhau cyflawni'r **canlyniadau** gorau i bobl"*

- *"Caiff **cadernid mewn cymunedau** ei hyrwyddo a phobl eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy fynd ati i gefnogi pobl sydd angen gofal a/neu gymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas"*

**Cynyddodd nifer y cysylltiadau newydd i Wasanaethau Oedolion yn ystod 2024/25 11% dros y dair blynedd diwethaf, gyda'r ffigur yn 3,640 yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â 3,280** dair blynedd yn ôl. Priodolir y cynnydd i nifer o ffactorau: poblogaeth sy'n heneiddio; gan fod gan Ynys Môn gyfran uwch na'r cyfartaledd o oedolion hŷn ac mae'r demograffeg hon yn tyfu. Felly, gallwn dybio y bydd nifer y cysylltiadau yn cynyddu dros amser. Ffactor arall yw bod pobl yn llawer mwy ymwybodol o wahanol fathau o gefnogaeth sydd ar gael trwy Wasanaethau Oedolion, gyda gwell cyfeirio gan feddygon teulu, ysbytai a grwpiau cymunedol.

Ochr yn ochr â chynnydd yn nifer y cysylltiadau newydd dros y 3 blynedd diwethaf, bu **cynnydd yn nifer yr asesiadau newydd sy'n cael eu cwblhau, gyda 1,793 yn cael eu cwblhau yn 2024/25.**

Dyma ganlyniadau'r asesiadau hyn:

| | |
|---|---|
| Diwallwyd anghenion gyda chynllun gofal a chymorth | 1,173 |
| Diwallwyd anghenion trwy unrhyw ddull arall | 377 |
| Ni ddiwallwyd yr un angen cymwys | 243 |

**Mae pecynnau ailalluogi sy'n cael eu cwblhau wedi cynyddu o 103 yn 2023/24 i 168 yn 2024/25.** Un rheswm dros y cynnydd yw tîm sydd newydd ei greu; **"Am Adra Môn"**, sydd wedi cynnwys Swyddogion Ymgysylltu yn gweithio yn Ysbyty Gwynedd ac yn rhoi asesiad cychwynnol i gleifion i bennu anghenion. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau ac yn nifer y cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau ataliol, megis ailalluogi, yn hytrach na gorfod aros yn yr ysbyty am gyfnod hwy gyda'r perygl y bydd eu hiechyd yn dirywio.



Dyma ganlyniadau'r pecynnau ailalluogi a gwblhawyd ar gyfer 2024/25:

| | |
|---|---|
| Gostwng yr angen am gymorth | 44 |
| Wedi cynnal yr angen am yr un lefel o gymorth | 31 |
| Wedi lliniaru'r angen am gymorth | 74 |
| Heb ostwng, cynnal na lleddfu'r angen am gymorth | 19 |

**Cam 2 Datblygu Canolfan Glanhwfa** - Mae Hwb Cymunedol Canolfan Glanhwfa wedi derbyn cyfanswm o £1m o gyllid i gwblhau gwaith addasu ac adnewyddu i'w hadeilad yng Nghapel Moreia yn Llangefni. Mae hyn yn dilyn cwblhau cam cyntaf y gwaith ym mis Rhagfyr 2022.

Ers hynny, mae bobl hŷn a bregus wedi cael gwasanaethau cymunedol, gyda phartneriaid mawr Age Cymru Gwynedd a Môn, Bwyd Da Môn, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Cynnal Gofalwyr ac Adferiad yn rhoi gwasanaethau allweddol. Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn gartref i'r corau arobryn Côr Ieuenctid Môn a Chôr Encor (i bobl dros chwe deg oed), dosbarthiadau comedi stand-yp a chyrsiau cymunedol gan Grŵp Llandrillo Menai.

Dywedodd rheolwr Canolfan Glanhwfa, Siân Green: ***"Bydd yr hwb cyllid diweddaraf hwn yn fodd i ni roi cartref pwrpasol i Ganolfan Dementia Ynys Môn sy'n darparu gwasanaethau cymunedol i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr."***

Ychwanegodd cadeirydd Canolfan Glanhwfa, Ieuan Wyn Jones: ***"Unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau tua chanol 2025, bydd yn rhoi bywyd newydd i adeilad rhestredig Gradd 2* yng nghanol Llangefni. Mae adeilad y capel eiconig yn rhan o dreftadaeth bensaernïol y dref ac mae'n wych ei weld yn cael ei addasu i ddiwallu anghenion canolfan gymunedol yr 21ain ganrif".***

Mae'r adran wedi cynnal prosesau tendr i **ddiweddaru ein contractau trydydd sector** ar gyfer **Cefnogi Gofalwyr Di-dâl, a Chefnogaeth i Bobl Heneiddio'n Dda**. Llwyddodd Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr i gael y contract i gefnogi Gofalwyr Di-dâl a llwyddodd Canolfan Glanhwfa i gael y contract ar gyfer Cefnogi Pobl i Heneiddio'n Dda.

## Partneriaeth ac Integreiddio

**Safonau ansawdd:**

- *"Mae partneriaethau effeithiol yn eu lle i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl"*
- *"Caiff pobl eu hannog i fod yn rhan o waith dylunio a chyflenwi eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal"*

**Ymwelodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**, Rhian Bowen-Davies, ym mis Hydref 2024 i ddarganfod ein huchelgais i wneud **Ynys Môn yn gymuned Oed-gyfeillgar mor ysbrydoledig**. Dychwelodd am ymweliad wythnos o hyd ym mis Mawrth 2025 i drochi ei hun ymhellach yn y mentrau sydd ar gael ar Ynys Môn.



**Ymweliad Rhian Bowen-Davies fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

**Derbyniwyd yr Ynys yn aelod swyddogol o Rwydwaith Byd-eang Cymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd ym mis Gorffennaf 2023.**

Yn ystod ei hymweliad, llwyddodd y Comisiynydd i ymweld â chymunedau ledled Ynys Môn; ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion hŷn i glywed am eu profiadau a dysgu sut mae gwasanaethau a grwpiau lleol yn cefnogi pobl i fyw a heneiddio'n dda.

Cyfarfu â Swyddogion allweddol y Cyngor ac Aelodau Etholedig, cyn gweld drosto'i hun yr ystod o fentrau sydd wedi helpu i greu Ynys Môn Oed-gyfeillgar. Cymerodd Rhian Bowen-Davies ran mewn ystod o fentrau dan arweiniad y gymuned sy'n adlewyrchu ymrwymiad yr ynys i helpu pobl hŷn i aros yn actif, bod â chysylltiadau ac yn annibynnol.

Ymhlith y rhain roedd **dosbarth Pêl-bicl 60+** yng Nghanolfan Biwmares, y **grŵp Nifty 60s** yng Nghaergybi a **dosbarth sgiliau TG ffyniannus** yn y Benllech a gyflwynwyd gan diwtoriaid o Grŵp Llandrillo Menai. Cyfarfu hefyd ag aelodau o **nifer o sefydliadau a grwpiau oed-gyfeillgar** megis Mencap Môn, Caffi Siop Mechell, Grŵp Cerdded Canolfan Glanhwfa a thrigolion yn Hafan Cefni.

Yn dilyn yr ymweliad, dywedodd Rhian Bowen-Davies, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, "Bu'r ymweliad ag Ynys Môn yn fodd i mi weld yn uniongyrchol sut mae unigolion, cymunedau a gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i wneud Ynys Môn yn wirioneddol oed-gyfeillgar. Ni ellir gorbwysleisio rôl hanfodol gwirfoddolwyr ar draws yr ynys—y mae llawer ohonynt yn bobl hŷn—gan eu bod yn rhoi cyfleoedd amhrisiadwy i gymunedau elwa ar wybodaeth, cefnogaeth a gwasanaethau hanfodol."

***"Dylai Ynys Môn fod yn hynod falch o'i gyflawniadau hyd yn hyn. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi pobl i aros mor annibynnol â phosibl yn ein cymunedau ac rwy'n falch bod y comisiynydd wedi cydnabod y cyfleoedd a'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn yma ar Ynys Môn."***

***"Ers 2023, mae Ynys Môn wedi bod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Cymunedau a Dinasoedd Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd ac mae wedi ymrwymo i greu ynys o unigolion annibynnol a chymunedau grymus. Ein gweledigaeth yw Ynys Môn Oed-gyfeillgar sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda."***





Mae datblygiad **Ynys Oed-gyfeillgar** yn mynd o nerth i nerth. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â nifer o wasanaethau a sefydliadau trydydd sector i ehangu'r gwaith hwn. Mae'r prosiect Nifty60s a datblygiad Canolfan Dementia Ynys Môn yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni yn enghreifftiau o ddatblygiadau sy'n cefnogi iechyd a lles trigolion Ynys Môn.

Ym mis Tachwedd 2024, ailddatblygodd yr Awdurdod Lleol eu cynnig iechyd meddwl a sefydlu **Llesiant Meddwl Môn**. Bydd ailfodelu'r gwasanaeth yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleol i roi golwg cliriach ar anghenion gofal cymdeithasol dinasyddion Ynys Môn. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol ac Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy ac mae'n anelu at gynnig asesiad a chefnogaeth i hyrwyddo canlyniadau unigol cadarnhaol fel bod modd i bobl fyw bywydau bodlon. Mae hyn yn cyd-fynd ag ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o atal, lles ac ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio'n agos gyda Thîm Iechyd Meddwl Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader i roi cefnogaeth Iechyd Meddwl i ddinasyddion Ynys Môn.

**Statws Dementia-gyfeillgar i Ynys Môn** - Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cael ei anrhydeddu yn Gyngor Dementia-gyfeillgar cyntaf Gogledd Cymru, gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyngor Ynys Môn, Arwel W Owen,

"Rydym wrth ein bodd o dderbyn y gydnabyddiaeth hon, mae'n dyst i waith caled ac ymrwymiad ein staff, y cyngor a'n partneriaid i hyrwyddo ymwybyddiaeth."

Ychwanegodd,

"Ein nod nawr yw parhau i weithio ochr yn ochr â'r bwrdd iechyd a sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu'r ddarpariaeth orau i bobl Ynys Môn."

Mae prosiect Ynys Môn Dementia-gyfeillgar yn gweithio gyda chymunedau lleol i fynd i'r afael â blaenoriaethau a nodwyd yn lleol. Ymhlith y blaenoriaethau hyn mae nodi mannau mewn cymunedau y mae angen cyfleuster neu adeilad cymunedol dementia-gyfeillgar ar eu cyfer. Mae'r prosiect yn golygu gweithio gydag amrywiol sefydliadau, busnesau, grwpiau strategaeth, sy'n gweithio ar y cyd i greu Ynys Môn Dementia-gyfeillgar.

Esboniodd y Cynghorydd Alun Roberts, Deiliad Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol,

"Mae gan Ynys Môn boblogaeth sy'n heneiddio gyda 26% dros 65 oed. Amcangyfrifir bod 1,300 o bobl yn byw gyda Dementia ar Ynys Môn a rhagwelir y bydd y ffigurau hynny'n cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Felly, mae'n hanfodol bod pobl sy'n byw gyda dementia, eu ffrindiau, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu deall, eu parchu a'u gwerthfawrogi fel aelodau o'r gymuned."



## Llesiant

**Safonau ansawdd:**

- *"Mae pobl yn cael eu hamddiffyn a'u **diogelu** rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed"*
- *"Mae pobl yn cael cefnogaeth i fynd ati i **reoli eu lles** a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a **byw'n annibynnol** cyhyd ag y bo'n bosibl"*

Mae **cyfanswm nifer yr adroddiadau diogelu wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf, gan gynyddu 51% o 425 i 642 o adroddiadau.** Mae'n debygol y bydd y duedd hon yn parhau, efallai ar gyfradd arafach, ond yn cynyddu serch hynny oherwydd nifer o ffactorau. Un ffactor o'r fath yw cynnydd mewn ymwybyddiaeth gyhoeddus a hyfforddiant proffesiynol, gan fod mwy o weithwyr proffesiynol, gofalwyr ac aelodau'r gymuned bellach wedi'u hyfforddi i adnabod arwyddion o gam-drin, esgeulustod ac ecsbloetio. Mae ymgyrchoedd cyhoeddus a hyfforddiant diogelu hefyd wedi lleihau'r stigma ac wedi annog mwy o bobl i roi gwybod am bryderon. Mae pwysau ôl-bandemig a chost byw wedi cynyddu problemau iechyd meddwl, unigrwydd ac ynysu cymdeithasol, yn enwedig ymhlith oedolion hŷn neu anabl. Mae'r ffactorau hyn yn cynyddu'r bregusrwydd o fod yn agored i gam-driniaeth neu hunan-esgeulustod, gan ysgogi mwy o bryderon diogelu.

Mae nifer yr adroddiadau diogelu lle roedd angen gwneud ymholiadau wedi gostwng ychydig dros y tair blynedd diwethaf, gan ostwng 12% o 315 i 277. Un ffactor yw bod nifer uchel o adroddiadau diogelu sy'n cael eu derbyn heb gyrraedd y trothwyon sydd gennym yn Ynys Môn. Un arall yw problem adrodd bosibl o ddogfennau gwahanol yn cael eu defnyddio - rhywbeth nad yw'n cael ei nodi mewn adroddiadau.

Fodd bynnag, o'r adroddiadau hynny sy'n mynd ymlaen i ymholiadau, mae'r nifer y mae angen gweithredu arnynt wedi cynyddu yn y tair blynedd diwethaf, gan gynyddu 10% o 209 i 230. Mae hyn oherwydd trothwy uwch ac, felly, gynnydd yn y tebygolrwydd y byddai angen mwy o weithredu.

**Agor Hwb Dementia Amlwch** - Daeth pobl o bob oed ynghyd mewn digwyddiad i ddathlu lansio hwb dementia wythnosol newydd yn Amlwch. Ymunodd disgyblion o Ysgol Gynradd Amlwch ag aelodau hŷn y gymuned a gofalwyr mewn prynhawn agored a gynhaliwyd gan Môn Actif ac Ynys Môn Oed-gyfeillgar yn y Neuadd Goffa.

Roedd y digwyddiad yn cyd-daro ag Wythnos Ryng-genhedlaeth Fyd-eang, sy'n annog gwahanol grwpiau oedran i ddod ynghyd i weithio ar brosiectau lleol mewn ffyrdd ystyrlon. Rhoddwyd cyfle i'r rhai a ddaeth yno brofi rhai o weithgareddau'r ganolfan dementia, gan gynnwys: crefftau, cyrlio ac ymarferion ysgafn.

Bydd y ganolfan newydd, a gaiff ei redeg gan Dementia Actif Môn, yn ceisio cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia yn ogystal â'u gofalwyr. Gall pobl sgwrsio a chymdeithasu â'i gilydd dros baned. Roedd Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, Age Cymru Gwynedd a Môn a Thai Môn hefyd yn bresennol gyda stondinau gwybodaeth am eu gwasanaethau.

Dywedodd yr Hyrwyddwr Oed-gyfeillgar, y Cynghorydd Gwilym Jones,

> "Rydym wedi ymrwymo i greu Ynys Môn sy'n ddementia-gyfeillgar , lle nad oes unrhyw rwystrau i bobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd."

Dywedodd Yvonne Owen, preswylydd lleol ac aelod o Gyngor Pobl Hŷn Ynys Môn, COP, a Chyfeillion Neuadd Goffa Amlwch,

> "Mi oedd yn brynhawn gwych. Dw i'n meddwl bod oedolion a phlant wedi elwa llawer ohono ac roedd yr awyrgylch mor gynnes a chynhwysol."

Mae Canolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi ac Ynys Môn yn falch o gyhoeddi eu bod wedi llwyddo i sicrhau £288,334 o arian gan y Loteri Genedlaethol i ehangu eu Prosiect **Nifty60s ar draws Ynys Môn** am y tair blynedd nesaf. Bydd y cyllid hwn yn fodd i'r ganolfan hon gyflwyno sesiynau mewn ardaloedd ychwanegol o Ynys Môn, ar ôl eisoes ddenu 154 o aelodau yn y sesiynau yng Nghaergybi. Mae'r prosiect yn rhoi cefnogaeth iechyd a lles gwerthfawr yn y gymuned i oedolion dros 60 oed.

> "Rydym yn ddiolchgar o dderbyn yr arian hwn gan y Loteri Genedlaethol fydd yn fodd i ni ehangu ein prosiect Nifty60s ymhellach a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywydau pobl ar draws Ynys Môn. Rydym yn ddiolchgar i Gyngor Sir Ynys Môn am eu cefnogaeth drwy Gronfa'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a phartneriaid allweddol eraill am eu cefnogaeth barhaus

Meddai Ray Williams (Cadeirydd y Ganolfan Codi Pwysau).

Dywedodd James Lee MBE, Cadeirydd Nifty60s,

"Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo heneiddio iach ac actif, lleihau llithro, baglu a syrthio. Bydd y gefnogaeth hon yn ein helpu i gyrraedd mwy o unigolion, gan wella ansawdd eu bywyd a'u lles cyffredinol. Mae'r sesiynau'n canolbwyntio ar hyfforddiant ymwrthedd ac, i ni, cyhyrau yw hirhoedledd bywyd."




Nod Nifty60s yw cychwyn y prosiect estynedig yn ddiweddarach eleni, gan ddod ag amrywiaeth o sesiynau gweithgaredd corfforol, ymgysylltu cymdeithasol a lles i wahanol gymunedau ar Ynys Môn. Mae'r sefydliad yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda phartneriaid lleol a gwirfoddolwyr i sicrhau llwyddiant a chynaliadwyedd tymor hir y prosiect.

**Fforwm Pobl Hŷn Ynys Môn** - Ym mis Ebrill 2024, cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn ac Age Cymru Gwynedd a Môn Fforwm Pobl Hŷn Ynys Gyfan yn M-Sparc; digwyddiad a ddaeth â phobl hŷn o bob cwr o'r ynys ynghyd.

Yn y Fforwm, lle'r oedd dros 70 o bobl yn bresennol, cafwyd cyflwyniadau gan sawl siaradwr gwadd diddorol. Agorwyd y digwyddiad gan Brenda Roberts, Cadeirydd Cyngor Pobl Hŷn, a chaewyd y digwyddiad gan y Cynghorydd Gwilym Jones, Hyrwyddwr Pobl Oed-gyfeillgar.

Cynhaliwyd amserlen o gyflwyniadau amrywiol, gan gynnwys Cymorth Atal Sgamiau i wefan Action Fraud i Fwletin Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru. Cynigiodd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth gymorth a chyngor sydd ar gael i helpu pobl i wneud y mwyaf o'u hincwm a'u hegni. Cyfeiriodd y cyflwyniad at dariffau cymdeithasol, cymorth brys, awgrymiadau ar gadw'r tŷ'n gynnes, awgrymiadau ynghylch arbed ynni a mwy. Rhoddodd y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr gyflwyniad yn crynhoi beth yw Gofalwr Di-dâl a sut y gall gwasanaeth Cynnal Gofalwyr helpu.

Cawsom wybod am wahanol gynlluniau, gan gynnwys y rhaglen seibiant 'Cynllun Seibiannau Byr', cymorth gartref a chyda hawliau gofalwyr, yn ogystal â llawer o rai eraill.

"Diolch am ddiwrnod diddorol ac addysgiadol iawn, mi wnes ei fwynhau yn fawr iawn. Gyda gobaith, gallwn ni i gyd wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl hŷn, a'u teuluoedd a'u ffrindiau, yn eu cymunedau ac yn Ynys Môn yn ehangach."

Llwyddodd yr adran i ddenu arian grant o £700K trwy **Gronfa Tai gyda Gofal Llywodraeth Cymru** i brynu eiddo byw â chymorth oddi ar y farchnad agored yn Rhostrehwfa ac mae gwaith adnewyddu'n parhau. Mae ail eiddo yn ardal Gwalchmai wedi'i brynu a bydd addasiadau'n cael eu gwneud yn ystod y misoedd nesaf. Bydd y prosiect yn cael ei redeg mewn partneriaeth â'n hadran dai ac yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Cyfrif Refeniw Tai.



# Blaenoriaethau'r Gwasanaethau Oedolion am 2025/26 yw:

| Maes i'w Wella | Camau Gweithredu i'w Gwella | Canlyniadau (sut y bydd yn cyfrannu at nod strategol Cynllun y Cyngor) | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| **System TG Cysylltu Gofal (blaenoriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol)** | Rheoli cyflwyniad System Monitro Gofal Cymdeithasol Mozaic newydd. | Bydd y system newydd yn cynorthwyo i gefnogi Staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i reoli a chofnodi eu gwaith a bydd yn cynorthwyo i rannu data gyda phartneriaid eraill (Cam 2) | Mehefin 2026 I'w gadarnhau |
| **Cyngor Oed-gyfeillgar** | Ymestyn gweledigaeth ein Gwasanaeth ar draws y Cyngor er budd yr holl staff a chymuned Ynys Môn. | Datblygu Cynllun Strategol penodol fydd yn cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor i helpu i ymgorffori'r weledigaeth. | Mawrth 2026 |
| **Safle Gofal Ychwanegol (De'r Ynys)** | Symud o gam cynllunio i gam prosiect | Sicrhau llety o ansawdd uchel gyda chefnogaeth a helpu i foderneiddio›r ddarpariaeth | Mawrth 2028 |
| **Moderneiddio'r Uned Byw â Chymorth/Ysbaid** | Dechrau gwaith ar gyfleuster Byw â Chymorth / Seibiant i foderneiddio'r ddarpariaeth fydd yn fodd i ni ddiwallu anghenion eang o ran anghenion. | Darparu seibiant mewn amgylchedd o ansawdd uchel fydd yn hyrwyddo gwaith datblygu sgiliau byw'n annibynnol. | Bydd gwaith ar adeilad Penlan yn dechrau yn 2025 |
| **Moderneiddio Gwasanaethau Dydd – Anableddau Dysgu –** | Adolygu modelau darparu gwasanaethau gan weithio tuag at gynnig mwy cynhwysol yn y gymuned. Lle bo modd, y nod fydd integreiddio â gwasanaethau ac adnoddau cymunedol presennol. Mae angen i'r gwasanaeth ddatblygu'r cynllun peilot gan weithio'n agos gyda Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd, dinasyddion a'u teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth. | Bydd y Bwrdd Partneriaeth yn archwilio arfer gorau ac edrych ar lunio Strategaeth ar gyfer y dyfodol mewn cydweithrediad â Dinasyddion a'u teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth. | Parhaus |
| **Llety** | Strategaeth llety ar draws Gwasanaethau Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl i sefydlu modelau gofal effeithiol. Ychydig o opsiynau llety sydd ar gyfer unigolion ag anghenion iechyd meddwl cymhleth. Mae pob Gwasanaeth Byw â Chymorth Anabledd Dysgu wedi'i adolygu i sicrhau'r maint gofal cywir. Mae hyn wedi nodi›r angen i ddatblygu a sicrhau llety fydd yn fodd i bobl heneiddio'n dda yn eu cartrefi. | Sicrhau bod gofal a chymorth priodol ar gael i unigolion yn eu cymunedau lleol ac mewn cartrefi sy'n addas ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio technoleg i gefnogi gwella annibyniaeth. Bydd llety addas yn cefnogi unigolion sy'n dod trwy'r cyfnod pontio i wasanaethau oedolion ond bydd, hefyd, yn fodd i'r gwasanaeth edrych ar symud o leoliadau y tu allan i'r sir. | Pen Coed - Mehefin 2025<br><br>Maes y Ffridd - Gorffennaf 2025 |

# Gwybodaeth arall

## Archwiliadau ac adolygiadau

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru arolygiad o'r **Gwasanaethau Oedolion** ym mis Mehefin 2024 i edrych am unrhyw welliannau a nododd ostyngiad yn y rhestr aros ers arolygiad 2022. Ar ben hynny, adroddodd yr Arolygiaeth am dîm arweinyddiaeth cryf, oedd wedi cychwyn a gweithredu newidiadau cadarnhaol a chodi ymwybyddiaeth o feysydd yr oedd angen eu cryfhau. Roeddynt wedi gweithio'n galed i osod cyfeiriad clir ar gyfer newid, gyda chefnogaeth ymarferwyr cymwys ac ymroddedig. Mae sefydlogrwydd cynyddol yn y gweithlu wedi arwain at wasanaeth gwell a mwy amserol i bobl. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo'r opsiwn o daliadau uniongyrchol sy'n arfer cadarnhaol. Mae rhestrau aros ar gyfer asesiadau gwaith cymdeithasol wedi lleihau'n sylweddol, gyda chefnogaeth trefniadau monitro clir, er bod y gostyngiad ar gyfer therapi galwedigaethol yn parhau i fod yn uchel. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hadolygu o fewn 12 mis. Nodwyd bod y gwasanaeth wedi parhau i elwa ar gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol. Mae'n hanfodol bod hyn yn parhau i sicrhau y cynhelir cynnydd a bod y meysydd sy'n parhau i fod angen eu gwella yn cael eu cefnogi a chael digon o adnoddau. Bydd hyn, hefyd, yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn gyson. I ddarllen mwy am ganfyddiadau ac argymhellion Arolygiaeth Gofal Cymru, cliciwch ar y ddolen - [www.arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2024-10/241014-Ynys-Mon-Improvement-Check-cy.pdf](www.arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2024-10/241014-Ynys-Mon-Improvement-Check-cy.pdf)

**Archwiliwyd gwasanaethau cyfiawnder Gwynedd ac Ynys Mon** ym mis Mawrth 2024. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r tîm i gefnogi gwaith datblygu cynllun gweithredu. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

Yn ddiweddar, rydym wedi derbyn ymateb cadarnhaol i'n **Proses Sicrwydd Dyletswydd Prevent Blynyddol ar gyfer 2024/2025.** Mae gan awdurdodau lleol a'r **Bartneriaeth Prevent** rôl hanfodol i'w chwarae wrth wrthsefyll terfysgaeth ar lefel leol a sicrhau bod pobl sy'n agored i gael eu radicaleiddio yn cael cefnogaeth. Fel rhan o waith adnewyddu'r ddyletswydd Prevent, mae'r Swyddfa Gartref wedi diweddaru ei phroses sicrwydd i helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswydd Prevent statudol yn unol â chanllawiau'r ddyletswydd Prevent.

Mae pecyn cymorth dyletswydd Prevent ar gyfer awdurdodau lleol yn amlinellu'r wyth meincnod y mesurir gwaith cyflawni Prevent yn eu herbyn ac mae'n cynnwys enghreifftiau awgrymedig o arfer da a gorau. Mae'r broses sicrwydd wedi'i chynllunio i awdurdodau lleol sicrhau eu hunain trwy hunanasesiad eu bod yn cyflawni eu dyletswydd statudol yn effeithiol. Roeddym yn falch o dderbyn llythyr cadarnhaol mewn ymateb i'n gwaith presennol a byddwn yn gweithio gyda'n Cynghorydd Prevent i wella ein hymrwymiad ymhellach.

> " Dylai Ynys Môn fod yn falch o'i thaith ysbrydoledig sy'n oed-gyfeillgar"

meddai **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Rhian Bowen-Davies**, fel rhan o'i hymweliad casglu ffeithiau wythnos o hyd â'r Ynys. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr ymweliad o dan yr adran Partneriaeth ac Integreiddio Gwasanaethau Oedolion.

**Hyrwyddwyr Copilot** - Comisiynwyd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, gyda chefnogaeth STABLE a Practice Solutions, gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i werthuso parodrwydd 22 awdurdod lleol Cymru i weithredu Microsoft Copilot (cynorthwy-ydd deallusrwydd artiffisial sgwrsiol) mewn gofal cymdeithasol i oedolion. Ar hyn o bryd, mae Ynys Môn yn edrych ar gyfleoedd yn y Gwasanaeth i dreialu eu peilot eu hunain.

Mae'r adroddiad terfynol bellach wedi'i gyhoeddi ar wefan Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gellir ei weld yn y ddolen hon. https://www.adss.cymru/cy/page/assessing-the-readiness-of-adult-social-care-teams-to-implement-copilot

Mae pecyn cymorth hefyd wedi'i ddatblygu ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol allai fod eisiau defnyddio Copilot i'w cynorthwyo yn eu rôl. https://www.adss.cymru/image/page/Copilot%20Training%20Toolkit_W.pdf

Ar gyfer **Lleoliadau All-Sirol, mae 4C** yn ymgymryd â gwaith monitro ar ran Cyngor Sir Ynys Môn. Fodd bynnag, mae gofyniad i'r Tîm Contractau hysbysu 4C am unrhyw ddarparwyr y mae angen iddynt eu blaenoriaethu ar gyfer gwaith craffu ychwanegol. Mae hyn yn sicrhau y ceir dull wedi'i dargedu o reoli contractau, gan ganolbwyntio ar ddarparwyr risg uchel neu rai sy'n tanberfformio er mwyn diogelu defnyddwyr gwasanaeth a chynnal ansawdd gwasanaeth.

Ar ben hynny, **mae pob contract Gwasanaeth yn cael eu monitro'n** barhaus gan ein tîm Contractau a Chomisiynu i sicrhau cydymffurfiaeth, ansawdd a gwerth am arian. Mae lleoliadau Preswyl/Nyrsio a rhai plant yn cael eu monitro trwy gyfuniad o ymweliadau safle corfforol ac archwiliadau bwrdd gwaith o bolisïau a gweithdrefnau i asesu y cydymffurfir â safonau rheoleiddiol a chytundebol.

**Mae gan bob contract ddangosyddion perfformiad allweddol penodol y mae'n rhaid i ddarparwyr adrodd yn eu herbyn**, gan alluogi'r Cyngor i olrhain darpariaeth gwasanaeth, nodi meysydd i'w gwella, a chymryd camau adfer lle bo angen. Cynhelir adolygiadau perfformiad rheolaidd i asesu a gyflenwir rhwymedigaethau cytundebol ac ysgogi gwelliannau gwasanaeth.

Mae ein holl gontractau cyfredol wedi'u caffael yn unol â rheolau gweithdrefn contract hanesyddol gan gynnwys egwyddorion polisi caffael Cymru.

Gan symud ymlaen, bydd pob tendr yn y dyfodol yn cadw at y **Ddeddfwriaeth Gaffael newydd** a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2025. Bydd y newid deddfwriaethol hwn yn cyflwyno gofynion ac egwyddorion wedi'u diweddaru gyda'r nod o wella tryloywder, effeithlonrwydd a gwerth am arian mewn caffael yn y sector cyhoeddus. Bydd y Tîm Contractau a Chomisiynu yn sicrhau bod pob gweithgaredd caffael yn cyd-fynd â'r fframwaith newydd, gan ymgorffori unrhyw addasiadau gweithdrefnol angenrheidiol i barhau i gydymffurfio'n llawn â'r rhwymedigaethau statudol diweddaraf. Mae swyddogion perthnasol wedi cwblhau diwrnod llawn o hyfforddiant ar y Rheoliadau Caffael newydd, gan sicrhau bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol i weithredu'n effeithiol ofynion sydd wedi'u diweddaru. Roedd yr hyfforddiant hwn yn ymdrin â newidiadau deddfwriaethol allweddol, rhwymedigaethau cydymffurfio ac arferion gorau ar gyfer caffael a rheoli contractau.

Fel rhan o'r Fframwaith Perfformiad Corfforaethol, mae pob maes gwasanaeth yn y Cyngor yn cynhyrchu **Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth** blynyddol, sy'n nodi ein bwriadau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac a gaiff eu monitro'n gorfforaethol, yn ogystal ag **Adroddiad Hunanasesu**, a gaiff eu craffu a'u herio gan yr uwch-dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Dethol. Rhan o'n dadansoddiad mewnol o gynnydd a'r daith a y buom arni yw hyn. Gellir cael copïau o'r dogfennau hyn ar gais.

## Cwynion a Sylwadau

**Mae Rheolwr Gofal Cwsmeriaid, Cwynion a Gwybodaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am y swyddogaeth rheoli cwynion a gwybodaeth effeithiol yn y gwasanaeth yn unol â gofynion statudol a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol yr awdurdod lleol, a fo/hi yw'r "Swyddog Cwynion Dynodedig" i'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd.**

**Mae'r Swyddog Cwynion yn gyfrifol am nifer o feysydd allweddol:**

- Cydlynu trefniadau'r gwasanaeth er mwyn cydymffurfio â'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion.
- Cofnodi cwynion a sylwadau cadarnhaol a negyddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.
- Monitro'r ymateb i gwynion o fewn yr amser a bennir yn y rheoliadau ar gyfer ymdrin â chwynion o dan Gam 1 y weithdrefn.
- Cydlynu ymchwiliadau gan ymchwilwyr annibynnol i gwynion ffurfiol o dan Gam 2 y weithdrefn.
- Cydlynu ymatebion gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i ymholiadau a wneir gan Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch cwynion am faterion Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Monitro Cynlluniau Gweithredu i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o gwynion er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau.

**Tabl canmoliaethau a chwynion am y flwyddyn 01/04/2024 - 31/03/2025:**

| | Gwas. Oedolion | Gwas. Oedolion | Gwas. Plant a Theuluoedd | Gwas. Plant a Theuluoedd | Wedi eu cyfuno | Wedi eu cyfuno |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023 / 2024 | 2024 / 2025 | 2023 / 2024 | 2024 / 2025 | 2023 / 2024 | 2024 / 2025 |
| **Pryderon** | 33 | 24 | 35 | 38 | 68 | 62 |
| **Cwyn Cam 1** | 3 | 6 | 13 | 14 | 16 | 20 |
| **Cwyn Cam 2** | 0 | 0 | 6 | 1 | 6 | 1 |
| **Canmoliaethau** | 160 | 146 | 223 | 164 | 383 | 310 |

**Themâu Cwynion:**
Caiff themâu cwynion eu cymedroli a'u hadolygu er mwyn dysgu a gwella ein gwasanaethau. Yna caiff y rhain eu rhannu â thimau Rheoli Gwasanaeth bob chwarter a chytunir ar fesurau cywirol, os oes angen.

- Cyfathrebu
- Oedi
- Prinder darpariaeth gofalwyr
- Trefniadau cyswllt
- Cywirdeb gwybodaeth,
- Diffyg cefnogaeth
- Cefnogaeth ariannol
- Gwybodaeth anghyson
- Diffyg dealltwriaeth



**Dysgu:**
Yn ogystal â nodi themâu allweddol, rydym hefyd yn ymdrechu i ddysgu a gwella trwy rannu gwybodaeth gyda staff. Dyma'r gwersi allweddol ar gyfer cwynion 2024/25:

- Cyfathrebu'n gymesur â defnyddwyr gwasanaeth / teulu
- Sicrhau bod copïau o asesiadau'n cael eu cynnig a'u rhannu'n amserol.
- Cofnodi camau gweithredu'n glir a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r teuluoedd ar ôl iddynt gael eu cwblhau.
- Cofnodi ethnigrwydd yn gywir o fewn cofnodion.

**Camau Gweithredu:**
- Cysylltu ag Adnoddau Dynol i nodi anghenion hyfforddi staff.
- Adolygu fformat presennol yr adroddiad ar Blant mewn Gofal.
- Trafod unrhyw bwyntiau dysgu gyda'r gweithwyr perthnasol yn ystod goruchwyliaeth, a chyda rheolwyr yn ystod cyfarfod rheoli.

**Themâu Canmoliaethau:**
- Barn gadarnhaol am staff,
- Gwerthfawrogiad o lefel y gefnogaeth, y cyngor a'r wybodaeth a roddir,
- Gwerthfawrogiad o'r ffordd y mae gweithwyr wedi gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd a'u deall
- Gweithwyr proffesiynol yn cael eu plesio gan ansawdd y gwaith a'r gefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd.
- Gofal a charedigrwydd o ansawdd uchel a ddangosir mewn cartrefi preswyl a Gofal Môn, (Ailalluogi a Thylluanod y Nos).

Trowch at Hastudiaethau Achos Cwynion Rhif 12 a 13 i ddarllen am esiamplau Cwynion a Camoliaethau.

Rydym yn llunio Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn – Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Gellir dod o hyd i ddolen i adroddiad y flwyddyn flaenorol isod (Nid yw adroddiad 2024/25 wedi ei gwblhau eto) - Adroddiad blynyddol: cwynion gwasanaethau cymdeithasol



## Ffynonellau gwybodaeth eraill

Rydym wedi ymrwymo i ddisodli ein system gofnodi electronig bresennol, fydd yn cael ei datgomisiynu ddechrau 2026, drwy ymuno â **Phrosiect Cysylltu Gofal** Cymru Gyfan. Rhaglen ddigidol uchelgeisiol yw'r Prosiect, sydd â'r nod o integreiddio a thrawsnewid gwasanaethau gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae'r ymdrech gydweithredol hon yn cynnwys awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Cyflwynodd Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Achos Busnes am gyllid i Lywodraeth Cymru yn Chwarter 3 2024/25 ar ran Bwrdd yr Uwch Swyddogion Cyfrifol. Contractiodd Ynys Môn gyda'r cyflenwr newydd, Access, ym mis Rhagfyr 2024. Derbyniwyd grant gwerth £290K gan Lywodraeth Cymru ar 31/3/25 i dalu rhai o gostau blwyddyn 0 (2024/25). Fodd bynnag, nid oes unrhyw eglurhad wedi dod i law eto ynghylch cyllid o hyn ymlaen ar gyfer y prosiect. O'r herwydd, mae cynllunio i'r dyfodol, gan gynnwys recriwtio staff i gefnogi prosiect mor fawr yn anodd. Mae wedi'i nodi yn risg i'r gwasanaeth/adran/Cyngor.

Yn ystod 2022/23, bu i ni barhau i atgyfnerthu ein trefniadau rhagorol i weithio mewn partneriaeth gyda'n cydweithwyr yn y **Gwasanaethau Tai. Atal digartrefedd**, trwy sicrhau ei fod yn brin, yn fyr ac na chaiff ei ailadrodd, yw nodau ac amcanion allweddol **Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai** Cyngor Sir Ynys Môn **2022-2026** Housing-Support-Programme-Strategy-2022-to-2026.pdf) .

Yn brif ddarparwr cymorth tai dynodedig ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl, mae ein darpariaeth hefyd wedi cyfrannu at:

- Liniaru'r effaith ac atal digartrefedd
- Cefnogi pobl i fyw'n annibynnol.
- Darparu cymorth wedi'i deilwra a'i dargedu fel bod modd i bobl fregus fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ar draws pob deiliadaeth.

Mae ein **"Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024 i 2028"** yn ychwanegu at ein cynlluniau blaenorol ac yn nodi ein huchelgais i greu cymdeithas decach i bobl Ynys Môn. Mae'r cynllun yn egluro: -

- sut mae'n cyfrannu at weledigaeth Cynllun ein Cyngor o greu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu
- ein wyth amcan cydraddoldeb tymor hir ar gyfer creu Ynys Môn decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn ein cymunedau, yn ogystal ag yn ein sefydliad
- ein trefniadau ar gyfer monitro cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb

Cyhoeddir y cynllun a gweithredir arno yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 -
Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol -
Cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn argyfwng hinsawdd yn 2020** gan ymrwymo i ddod yn gyngor carbon niwtral erbyn 2030. O ganlyniad, mae'r cyngor wedi cytuno ar **'Gynllun Tuag at Sero Net 2022 i 2025'** sy'n amlinellu ymrwymiad i'r argyfwng hinsawdd a sut y mae'n bwriadu trawsnewid i ddod yn sefydliad sero net.

https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Newid-hinsawdd/Cynllun-Tuag-at-Sero-Net-Mawrth-2022-i-Mawrth-2025.pdf?nocache=1

Mewn ymateb mae'r Cygnor yn paratoi Adroddiad Blynyddol ar gynnydd: https://www.Ynys Môn.gov.wales/documents/Docs-en/Council/Climate-change/Annual-report/Towards-Net-Zero-Plan-Annual-report-2023-to-2024.pdf?nocache=1

Mae'r cyngor hefyd wedi paratoi **Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn 2022-2030**, sy'n nodi cynlluniau uchelgeisiol y cyngor i arwain wrth fodloni gofynion gwefru gan drigolion ac ymwelwyr â'r ynys. Mae tîm Trafnidiaeth a Fflyd y cyngor wedi datblygu cynllun trosglwyddo fflyd i ddadgarboneiddio ei gerbydau fflyd ac mae'n anelu at ddisodli cyfran ohonynt â cherbydau trydan.



**Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2021-26** Mae strategaeth pum mlynedd ein Cyngor yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a chynyddu ei defnydd yn y Cyngor ac yn ein cymunedau. Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd, yn ogystal â'r gymuned ehangach, i gyd yn flaenoriaethau strategol allweddol. Mae fframwaith **'Mwy na geiriau'** a mentrau megis Dechrau'n Deg, clybiau ieuenctid, Ynys Môn Oed-gyfeillgar a chymunedau dementia-gyfeillgar yn creu cyfleoedd gwerthfawr i rai o'n trigolion mwyaf bregus ddefnyddio'r Gymraeg a'i mwynhau.



Yn ystod 2024 - 2025, mae **80% o'n staff Gwasanaethau Oedolion yn siarad Cymraeg ar Lefel 3-5, ac mae 86% o'n staff Plant a Theuluoedd yn siarad Cymraeg ar Lefel 3-5**. Mae'r lefelau a osodir yn ystyried sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu. Mae'r lefelau'n amrywio o 0 sy'n dynodi dim sgiliau i 5 sy'n rhugl yn yr iaith. Cefnogir staff i ddysgu Cymraeg trwy nifer o ddulliau amrywiol, megis gwersi yn yr ystafell ddosbarth, dysgu anffurfiol ac ati.

**Polisi a Safonau'r Iaith Gymraeg** - Mae ein polisi iaith Gymraeg yn nodi sut y byddwn yn cydymffurfio â'r 160 o safonau'r iaith Gymraeg a osodir arnom. Edrycha ein **hadroddiad blynyddol ar y Gymraeg** ar ein cydymffurfiaeth ac mae'n cynnwys gwybodaeth am sgiliau iaith staff y gwasanaethau cymdeithasol, a phob gwasanaeth arall. Fel rhan o'u sesiwn sefydlu, mae aelodau newydd o staff yn cael cyflwyniad ar ein cyfrifoldebau o ran y Gymraeg – gan gynnwys y fframwaith 'Mwy na geiriau' ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae modiwl ar y fframwaith hefyd ar gael ar ein gwefan e-ddysgu.



**Fforwm Iaith Ynys Môn** - Mae'r fforwm yn cynnwys dros ddeg ar hugain o sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector sy'n cyfrannu at wasanaethau Cymraeg yn ein hardal. Fe'i sefydlwyd yn wreiddiol gan y Cyngor ac mae ein gwaith yn parhau i fod yn ganolbwynt allweddol i'w weithgareddau. Rhoddodd cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol gyflwyniad i aelodau'r fforwm ar yr angen am fwy o ofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg a chafodd groeso cynnes. Mae swyddogion Dechrau'n Deg a gwasanaethau ieuenctid hefyd yn aelodau o'r is-grŵp Cymraeg i blant a theuluoedd a helpodd i ddatblygu ap, OgiOgi, i annog mwy o rieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u babanod.



# Atodiadau

## Atodiad A – Geirfa

Byddai'n ddefnyddiol darparu rhestr termau i roi disgrifiad o wasanaethau, termau neu acronymau nad ydynt efallai'n gyfarwydd i bobl nad ydynt â phrofiad o ofal cymdeithasol. Dylai'r disgrifiadau hyn fod yn addas ar gyfer person lleyg, nad oes ganddo efallai unrhyw ddealltwriaeth flaenorol o ofal cymdeithasol

**Arolygiaeth Gofal Cymru -** Rheoleiddiwr y darparwyr gofal cymdeithasol. Byddant yn cofrestru, yn archwilio ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru.

**Gofal Cymdeithasol Cymru -** Rheoleiddiwr y gweithlu. Fel rhan o hyn maent yn cofrestru ac yn gosod safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth ac yn datblygu'r gweithlu. Mae ganddynt, hefyd, gylch gwaith gwella, lle byddant yn rhannu arfer da, yn gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil ac yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd a sefydliadau eraill.

**Ailalluogi / Adsefydlu / Gofal Interim -**
Weithiau gelwir y gofal tymor byr hwn yn ofal canolradd, neu ôl-ofal. Mae ailalluogi yn fath o ofal sy'n helpu pobl i ailddysgu sut i wneud gweithgareddau dyddiol, megis coginio prydau bwyd a golchi. Fe'i darperir gan awdurdodau lleol gyda'r nod o liniaru'r angen am ofal a chymorth tymor hir.

**Gofal Cartref Ychwanegol / Gwasanaeth Cymorth Cartref / Gofal Cartref -** Mae gofal cartref, a elwir hefyd yn "ofal gartref", yn cyfeirio at ystod eang o wasanaethau gofal a roddir yng nghartref person ei hun. Gall olygu cymorth gyda byw o ddydd i ddydd a rhai materion gofal iechyd i'r henoed.

**Cartref Gofal Preswyl / Cartref Nyrsio -**
Mae cartref gofal preswyl yn rhoi llety a gofal personol a chymorth 24 awr i'r henoed ac i eraill a allai ei chael hi'n anodd ymdopi â bywyd bob dydd gartref. Mae cartref gofal preswyl a chartref nyrsio yn rhoi gofal a chymorth 24 awr y dydd. Fodd bynnag, y prif wahaniaeth yw bod cartref nyrsio yn gallu rhoi gofal dwysach. Mewn cartrefi nyrsio ceir nyrsys cymwys ar y safle bedair awr ar hugain y dydd i roi gofal meddygol yn ôl yr angen, tra bod cartrefi preswyl yn helpu pobl gyda gofal personol ac yn eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol.

**Plant â Phrofiad o Ofal -**
Mae 'profiad o ofal' yn derm ymbarél a all olygu plant / pobl ifanc sydd:

- Yn derbyn gofal gartref trwy Orchymyn Gofal
- Yn derbyn gofal i ffwrdd o'r cartref mewn tŷ preswyl i blant, mewn lleoliad maeth neu mewn lleoliad perthynas (yn derbyn gofal neu ddim yn derbyn gofal)
- Wedi cael profiad gofal o'r blaen, lle maent wedi cael unrhyw un o'r profiadau uchod ar ryw adeg yn eu bywydau. Efallai nad yw'r plentyn / person ifanc erioed wedi cael gofal ffurfiol.

**Person Ifanc sy'n Gadael Gofal -** Yng Nghymru, unigolion sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol am o leiaf 13 wythnos ers 14 oed ac sydd wedi gadael gofal ar eu pen-blwydd yn 16 oed neu wedi hynny yw'r rhai sy'n gadael gofal. Y bwriad yw bod y gefnogaeth a roddir i bobl sy'n gadael gofal yn gyfwerth â'r hyn y mae'n rhesymol i blentyn nad yw wedi derbyn gofal ei ddisgwyl gan ei rieni.

**Diogelu -** Mae diogelu yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.

**Gweithdrefnau Diogelu Cymru -**
Maent yn manylu ar y rolau a'r cyfrifoldebau hanfodol ar gyfer ymarferwyr i sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Maent yn darparu geirfa ddefnyddiol o dermau diogelu: Safeguarding Wales

Mesur gweithgarwch a pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol: fframwaith perfformiad a gwella 2024 i 2025 **-** Mae hwn yn nodi fframwaith o fetrigau sy'n ymwneud

ag oedolion, plant a gofalwyr. Maent yn fetrigau y mae'n rhaid eu casglu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ynghyd â data person dienw a data crynodedig ar agweddau penodol ar ofal cymdeithasol. Mae'n nodi y dylai awdurdodau lleol, hefyd, gasglu eu data eu hunain i ddeall yn well sut mae darparu gofal cymdeithasol yn lleol yn gweithio yn unol â blaenoriaethau lleol.

**System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) -** Mae'n cyfeirio at ein System Cofnodi Electronig Gofal Cymdeithasol gyfredol (Caredirector), Prosiect Llywodraeth Cymru dan arweinyddiaeth gan DHCW/NWIS yn flaenorol.

**Connecting Care -** Mae Cysylltu Gofal yn rhaglen ddigidol uchelgeisiol sydd â'r nod o integreiddio a thrawsnewid gwasanaethau gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae'r ymdrech gydweithredol hon yn cynnwys awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.

**Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)-** Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn Awdurdod Iechyd Arbennig newydd, sy'n creu'r atebion digidol y mae eu hangen i wella iechyd a gofal yng Nghymru. Adwaenid Iechyd a Gofal Digidol Cymru ynghynt fel Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS).

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru -** Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. Ei phrif ddibenion yw hyrwyddo llywodraeth leol well, ei henw da a chefnogi awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

**Catrefi Clyd -** Ein Cartrefi Grŵp Bach – eu nod yw cadw ein plant a'n pobl ifanc yn eu cymuned leol.

**Ynys sy'n Wybodus o Drawma -** Mae Ynys Môn, fel ynys sy'n wybodus o drawma, yn ceisio hyrwyddo cysylltiadau a pherthnasoedd i gefnogi'r rhai sy'n cael trafferth gyda gofid neu drawma yn eu bywydau. Mae'n ddull system gyfan gydag iaith gyffredin. Mae offer a strategaethau ar gael i edrych y tu hwnt i ymddygiad, a helpu i gefnogi anghenion sylfaenol plant a'r gymuned yn effeithiol gydag empathi a thrugaredd. Mae'n deall y gallai unrhyw un fod wedi profi gofid a thrawma.

**Uned Ddarparu -** Yn gyfrifol am Ailalluogi, Gofal Cartref, cartrefi Gofal y Cyngor a Chatrerfi Clyd (rhan o Wasanaethau Oedolion).

**Cynnig Rhagweithiol -** Cynnig Eiriolwr i bob Plentyn sydd mewn Angen neu ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

## Atodiad B – Astudiaethau Achos

| Rhif | Astudiaeth Achos |
|---|---|
| 1 | Rhaglen Ymgrymuso Ieuenctid |
| 2 | Maethlu Cymru |
| 3 | Ceiswyr lloches ar eu pennau eu hunain a gyfeiriwyd trwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol |
| 4 | Gwasanaethau Arbenigol Plant |
| 5 | Tîm o Amgylch y Teulu |
| 6 | Tîm Ymgysylltu 16+ |
| 7 | Gweithiwr Ieuenctid |
| 8 | Tîm Diogelu a Thîm Sicrhau Ansawdd - Rhestr Aros Amddifadu o Ryddid |
| 9 | Tîm Adnoddau Cymunedol |
| 10 | Llesiant Meddwl Môn – Stori dinesydd |
| 11 | Tîm Anabledd Dysgu |
| 12 | Cwynion |
| 13 | Canmoliaethau |





# Gwasanaethau Oedolion

Cyflwynodd y gwasanaeth ei 'Gynllun Strategol, Moderneiddio Gwasanaethau i Oedolion 2024-29', a chafodd hwn ei gymeradwyo gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor gyda'r meysydd blaenoriaeth allweddol fel a ganlyn:

1. **Cydweithio i fod yn ynys oed-gyfeillgar – drwy weithgareddau ataliol.**
2. **Trawsnewid gwasanaethau dydd – parhau â chamau cadarnhaol i gynnal gweithgareddau dydd mewn lleoliadau cymunedol.**
3. **Tai â Chymorth (anableddau dysgu) – i wneud y mwyaf o 'Tai â Chymorth' a'i foderneiddio er mwyn sicrhau effeithiolrwydd.**
4. **Gwasanaeth seibiant (anableddau dysgu) – nodi a datblygu darpariaeth newydd addas.**
5. **Tai gofal ychwanegol – datblygu tai gofal ychwanegol i gynyddu cyfleoedd i bobl fyw'n annibynnol yn y gymuned am gyfnod hwy.**
6. **Cartrefi preswyl y cyngor – dargyfeirio adnoddau ariannol i ddarpariaethau fforddiadwy a chost-effeithiol sy'n diwallu anghenion.**
7. **Datblygu gwasanaethau sy'n ariannol gynaliadwy.**



Ynys Môn Oed-Gyfeillgar
Age Friendly Anglesey



## Astudiaeth Achos 2

**Maethu Cymru**

Isod mae rhai enghreifftiau o'n llwyddiannau yn ein Gwasanaethau Maethu. Gweler y dolenni isod:
Ian: mae maethu yn rhoi pwrpas i mi ar ôl i mi golli fy ngwraig - maethu cymru
Dee a Rob: rydym yn credu mewn cadw teuluoedd gyda'i gilydd - maethu cymru

## Astudiaeth Achos 3

**Ceiswyr lloches ar eu pennau eu hunain a gyfeiriwyd trwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol).**

Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn cefnogi un ar bymtheg o geiswyr lloches sydd ar eu pennau eu hunain ac a gyfeiriwyd drwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol. Mae'r gwasanaethau a ddarperir i UASC i'w cael yn Nhîm 14+ y Gwasanaeth ac fe'u dyrennir i un gweithiwr cymdeithasol o fewn y tîm, sy'n arbenigo mewn cefnogi UASC. Mae'r Gwasanaeth, hefyd, wedi datblygu strategaeth o nodi lleoliadau sydd ar gael, gyda'r bwriad o wirfoddoli i gymryd pobl ifanc sy'n cyd-fynd â'r meini prawf cyfatebol ar gyfer y lleoliad. Gyda'r strategaeth hon, mae modd i'r gwasanaeth osod pobl ifanc yn gyflym mewn amgylchedd sy'n debygol o ddiwallu eu hanghenion. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu partneriaeth anffurfiol effeithiol gyda darparwr penodol sy'n gallu sicrhau lleoliadau pwrpasol.

Yn ogystal â diwallu anghenion pobl ifanc unigol, mae'r strategaeth hon hefyd yn gost-effeithiol i'r Awdurdod Lleol. Drwy leoli mewn dau ddiwrnod, mae modd i'r Awdurdod Lleol hawlio £15,000 drwy'r Swyddfa Gartref, yn ogystal â swm i dalu costau'r lleoliad yn wythnosol.

Mae Plentyn A yn geisiwr lloches ar ei ben ei hun. Drwy weithredu'r strategaeth uchod, lleolwyd Plentyn A mewn dau ddiwrnod i'w adnabod drwy'r NTS. Mae Plentyn A wedi ymgartrefu'n dda iawn mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu ei dreftadaeth ddiwylliannol. Mae wedi ymgysylltu â lle mewn coleg ac mae ganddo ddyheadau clir ar gyfer y dyfodol. Mae, hefyd, wedi bod yn llwyddiannus wrth hawlio lloches, sydd wedi rhoi sicrwydd a sylfaen gadarn iddo ac mae ganddo bellach y cyfle i ffynnu o fewn y DU. Gwnaeth swyddog adolygu annibynnol y sylw ganlyn ynghylch gwaith y gweithiwr cymdeithasol:

> "Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ganmol [gweithiwr cymdeithasol] am y gwaith trawiadol y mae'n ei wneud gyda holl geiswyr lloches yr Awdurdod Lleol sydd ar eu pennau eu hunain. Mae ei dosturi yn disgleirio ym mhob trafodaeth / adolygiad ac mae'r empathi a'r gofal y mae'n eu dangos o ran eu hanesion unigol a'u heriau cyfredol nid yn unig yn ysbrydoledig ond yn grymuso pob un ohonynt i lywio sefyllfaoedd cymhleth fydd yn helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu bywydau. Mae gwaith [y gweithwyr cymdeithasol] yn enghraifft dda o 'dosturi ar waith' ac, yn fy marn i, dylid nodi hyn."

# Astudiaeth Achos 4

**Gwasanaethau Arbenigol Plant**

**Cefndir:** Mae Plentyn A wedi cael diagnosis o Anabledd Dysgu ac ADHD. Oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a phryderon ynghylch gallu'r rhieni i gynnal cartref diogel a chyson, cafodd C ei letya gan yr Awdurdod Lleol. Roedd Plentyn A yn cael trafferth mewn lleoliadau preswyl ac yn aml byddai'n ymddwyn mewn ffordd beryglus iawn tuag at ei hun ac eraill. Yn sgil hyn, chwalodd lleoliadau a bu'n rhaid ei symud sawl gwaith. Roedd Plentyn A wedi dweud y byddai'n dymuno symud yn nes at adref ac y byddai 'n tanseilo unrhyw leoliad trwy ymddwyn yn waeth.

**Problemau / Rhwystrau oedd i'w gweld:**

- Mynediad cyson at addysg ac ymgysylltiad cyson â hi.
- Dim sgiliau byw'n annibynnol a dim cyfleoedd i ddatblygu.
- Lefel uchel o ymddygiad ymosodol geiriol a chorfforol wedi'i gyfeirio at eraill
- Dilyn ffiniau sy'n briodol i'w hoedran heb i bethau waethygu, a herio
- Cynnal perthynas deuluol heb gynyddu'r risgiau i'r hunan
- Lleoliadau'n chwalu a newid yn y ddarpariaeth yn peri anghysondeb

**Cymorth a roddwyd/Gwaith a Wnaed**

- Cwblhawyd asesiad amlasiantaeth gyda Phlentyn A i ddeall y sbardunau ar gyfer yr ymddygiad a chytuno ar gynllun cymorth cyson ar sut i ymateb. Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol, oedd yn cynnwys y teulu, i adolygu a newid y cymorth yn barhaus er mwyn diwallu'r anghenion a ymgyflwynwyd.

Treuliodd y Gweithiwr Cymdeithasol a'r Nyrs a neilltuwyd amser yn datblygu perthynas waith gadarnhaol gyda Phlentyn A, gan gynnal ffiniau proffesiynol clir, i sicrhau bod llais Plentyn A yn cael ei glywed a'i fod yn rhan o'r cynllunio gofal.

Comisiynwyd lleoliad yn lleol i gefnogi Plentyn A i ddychwelyd yn nes at adref. Mae'r arbrawf hwn wedi dangos bod y model gofal cymorth cymunedol yn nes at y teulu wedi bod o gymorth i Blentyn A ddatblygu sgiliau hunanreoleiddio, teimladau o gael ei werthfawrogi, teimladau o hunaniaeth yn nes at adref ac yn ei gymuned.

Parhaodd addysg i fod yn anodd. Gan weithio'n agos gyda chydweithwyr addysg a'r Darparwr, datblygwyd pecyn pwrpasol gyda Phlentyn A. Crëwyd hyn yn araf dros sawl wythnos.

**Canlyniadau / Gwahaniaeth a wnaed i Blentyn A:** Roedd Plentyn A yn gallu symud yn ôl i'r gymuned leol yr oedd yn uniaethu â hi a chael pherthynas ag aelodau'r teulu. Drwy ddatblygu perthynas gadarnhaol gyda'r Tîm Amlddisgyblaethol a'r Darparwr, mae C wedi gallu datblygu sgiliau hunanreoleiddio sydd wedi lleihau'r ymosodiadau corfforol, gan leihau'r risg iddo'i hun ac i eraill.

Mae Plentyn A wedi tyfu mewn hyder ac wedi nodi ei fod yn falch o gael addysg ac o fod yn cyflawni. Mae Plentyn A yn edrych ymlaen at ddatblygu hyn ymhellach.

Mae Plentyn A yn teimlo'n fwy mewn rheolaeth ond mae angen cydbwyso hyn â ffiniau sy'n briodol i'w oedran a gallu Plentyn A i dderbyn ffiniau. Mae angen ymyrraeth ddwys a medrus o hyd.

**Learning:**

1. Pwysigrwydd meithrin cydberthynas a datblygu perthnasoedd gwaith proffesiynol
2. Pwysigrwydd gwaith amlddisgyblaethol a manteisio ar arbenigedd
3. Pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol rhwng y dinesydd, y tîm amlddisgyblaethol a'r teulu
4. Hyrwyddo llais yr unigolyn

# Astudiaeth Achos 5

**Tîm o Amgylch y Teulu**

**Cefndir:** Cyfeiriad gan ysgol gynradd y person ifanc yn pryderu ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyfnodau o fod ar goll o'r cartref, ymddygiad hiliol ac ymosodol ar-lein ac mewn perygl o gael ei wahardd yn barhaol o'r ysgol. Cynhaliwyd Asesiad o'r Hyn sy'n Bwysig gan weithiwr cymorth Tîm o Amgylch y Teulu a chytunwyd y byddai'r Tîm yma'n gallu cefnogi'r teulu gyda'r anghenion a nodwyd. Nid oedd y person ifanc hwn yn mynd i'r ysgol pan ddechreuodd gweithiwr cymorth y Tîm weithio gyda'r teulu. Roedd y person ifanc wedi rhoi'r gorau i chwarae pêl-droed i glwb lleol ac wedi rhoi'r gorau i fynd i'r gampfa focsio.

**Yr hyn oedd yn bwysig i'r unigolyn:**
Pêl-droed, ei ffôn a mynd allan gyda ffrindiau

**Y risgiau dan sylw oedd:**
- Perthynas yn chwalu rhwng y Fam a'r person ifanc
- Byddai'r person ifanc yn cyflawni trosedd
- Gwahardd person ifanc o'r ysgol yn barhaol

**Y Gwaith a wnaed**
- Bod yn oedolyn sydd ar gael yn emosiynol i berson ifanc a'i fam
- Rhoi cyngor i fam ar sut i ddod yn oedolyn sydd ar gael yn emosiynol i'r person ifanc
- Cyngor rhianta i'r fam
- Cysylltu â'r ysgol, yr Heddlu a Digartref
- Mynd i gyfarfodydd gyda rhieni ac ysgolion
- Cefnogi'r person ifanc i symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, Cysylltu â'r ysgol uwchradd i sicrhau bod y person ifanc wedi setlo i lawr yn dda yn yr ysgol newydd
- Cwblhau rhaglen rheoli dicter 12 wythnos gyda'r person ifanc
- Cwblhau gwaith ar empathi
- Cwblhau gwaith ar feddwl canlyniadol
- Annog person ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol
- Cyfeiriadau at asiantaethau eraill am gefnogaeth ychwanegol

**Canlyniad i'r plentyn/teulu/gofalwyr hyd yma:** Rhoddodd y Tîm o Amgylch y Teulu'r gorau i'w gwaith gyfa'r person ifanc ym mis Medi 2024. Bryd hynny, roedd y person ifanc yn mynd i'r ysgol yn llawn amser ac nid oedd mewn perygl o gael ei wahardd. Roedd sesiynau ELSA yn parhau yn yr ysgol ac yn parhau â'r gwaith a ddechreuwyd gan y Tîm o Amgylch y Teulu i weithio trwy emosiynau cymhleth.

Mae'r person ifanc wedi datgysylltu ei hun â'r grŵp sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac mae ganddo, bellach, ffrindiau newydd y mae'n mynd i chwarae pêl-droed efo nhw.

Llwyddwyd I wneud hyn wrth i'r fam osod ffiniau a chadw at y ffiniau hynny gyda chefnogaeth y Tîm o Amgylch y Teulu. Mae'r berthynas yn y cartref wedi dod yn fwy cadarnhaol ac mae'r teulu'n treulio mwy o amser gyda'i gilydd yn sgil hyn.

**Edrych yn ôl - Taith y plentyn:** Aeth y person ifanc hwn o fod yn cael ei wahardd bron yn barhaol i fynd i'r ysgol yn llawn amser bob dydd a pheidio â bod yn agos at waharddiad parhaol.

Aeth y person ifanc hwn o fod yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn rheolaidd i gael grŵp hollol newydd o ffrindiau ac nid yw wedi ymddwyn yn wrthgymdeithasol ers dros flwyddyn.

Aeth y person ifanc hwn a'i deulu o fod yn dadlau, gweiddi a pheidio â threulio unrhyw amser gyda'i gilydd i allu cyfathrebu mewn modd tawel a threulio amser o safon gyda'i gilydd.

Cyflawnwyd canlyniadau'r person ifanc oherwydd gwaith amlddisgyblaethol a dulliau gweithiwr y Tîm o Amgylch y Teulu oedd yn wybodus o drawma. Yn sgil penderfyniadau a wnaed gan Reolwr y Tîm o Amgylch y Teulu, bu modd i'r gweithiwr ddyfalbarhau a rhoi cefnogaeth tymor hir a dalodd ar ei ganfed i'r teulu.

Pe bai hwn wedi bod yn ymyrraeth tymor byr, ni fyddai canlyniadau'r person ifanc wedi'u cyflawni. Roedd angen amser ar y person ifanc i feithrin perthynas ymddiriedus â'r oedolion oedd yn ei gefnogi.

## Astudiaeth Achos 6

**Tîm Ymgysylltu 16+**

Roedd person ifanc A wedi gorffen y chweched dosbarth gyda graddau da. Er gwaethaf ei chyflawniadau academaidd, roedd yn ansicr ynghylch ei dyfodol ac nid oedd wedi mynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth na hyfforddiant. Nodwyd gweithiwr allweddol iddi yn y tîm 16+.

Roedd hi'n byw mewn lleoliad maeth, yn wynebu pwysau cynyddol gan ei gofalwyr i weithredu a pheidio â threulio ei dyddiau gartref heb arweiniad. Gan gydnabod ei photensial a'r heriau a wynebodd, rhoddodd y tîm 16+ gefnogaeth un i un i'w helpu i edrych ar ei hopsiynau. Trwy anogaeth barhaus a dull wedi'i deilwra, cafodd ei pherswadio i fynd i'r Hwb Llesiant. Rhoddodd y ganolfan le diogel a chroesawgar iddi fagu hyder a chymdeithasu â chyfoedion. Wrth iddi ddod yn fwy cyfforddus, dechreuodd ymgymryd â rôl fentora anffurfiol yn y ganolfan, gan gynnig cefnogaeth ac arweiniad i bobl ifanc eraill oedd yn profi ansicrwydd tebyg.

Bu'r profiad hwn o gymorth iddi sylweddoli ei chryfderau mewn arweinyddiaeth a gweithio gydag unigolion iau. Gyda chefnogaeth barhaus y tîm 16+, gwnaeth gais am swyddi oedd yn cyd-fynd â'i diddordebau. Edrychodd ar gyfleoedd mewn ysgolion, yn enwedig wrth gefnogi plant oedran cynradd.

Ar ôl mynd am gyfweliad, cynigiwyd swydd wrth gefn iddi mewn ysgol. Mae hi wedi bod yn gweithio'n rheolaidd yn y rôl hon, gan ennill profiad gwerthfawr a magu hyder. Mae'r person ifanc yn parhau i fod mewn cysylltiad â'r Hybiau Llesiant ac yn aml yn galw heibio a dweud helo. Mae ei thaith o ansicrwydd i ddechrau gweithio a chymryd rhan mewn chwaraeon yn enghraifft ysbrydoledig o effaith gadarnhaol cefnogaeth dargedig a dyfalbarhad.



# Astudiaeth Achos 7

**Gweithiwr Ieuenctid**

Mae person ifanc B, sy'n 15 oed, wedi cael trafferth mynd i'r ysgol am dair blynedd, ac erbyn y diwedd mae wedi cofrestru fel addysg ddewisol gartref ond ym mlwyddyn 11 ac yn cael ei gydnabod fel LGBTQ+ anneuaidd. Derbyniwyd atgyfeiriad gan y ganolfan ymyrraeth gynnar a nodwyd Gweithiwr Ieuenctid fel y gweithiwr allweddol. O ganlyniad i waith un i un, llwyddodd y gweithiwr i gael y person ifanc allan o'r tŷ a mynd I'n canolfan ieuenctid yn Jesse Hughes.

Dros gyfnod o amser a rhaglen waith anffurfiol, fe wnaethom ddechrau datblygu sgiliau coginio a sgiliau cyfathrebu yn wythnosol, trafodaethau am arholiadau TGAU a pharatoi, ac ailafael mewn opsiynau addysg a hyfforddiant.

O ganlyniad i hyn, mae'r person ifanc, trwy gefnogaeth y Gweithiwr Ieuenctid wedi mynd am apwyntiadau CAMHS ac mae, Bellach, yn ystyried sefyll arholiadau TGAU a mynychu Jessie Hughes bob wythnos.



# Astudiaeth Achos 8

**Tîm Diogelu a Thîm Sicrhau Ansawdd - Rhestr Aros Amddifadu o Ryddid**

Yn nhîm Amddifadu o Ryddid Ynys Môn mae tri Asesydd Lles Gorau llawn amser a thri Asesydd Lles Gorau annibynnol sy'n ein cefnogi pan fo angen.

Yn ystod Chwarter 3, maent wedi llwyddo i ostwng y rhestr aros bresennol o 52 i 14, gan sicrhau hefyd bod pob un o'r 56 adnewyddiad wedi'u cwblhau ar amser. Eu nod yw peidio â chael rhestr aros ar gyfer asesiadau Amddifadu o Ryddid, ond mae hyn yn dibynnu ar y cyllid ychwanegol blynyddol a ddaw gan Lywodraeth Cymru yr ydym yn dibynnu arno i'n cefnogi yn y maes gwaith hwn.

Rhwng Hydref 2024 a diwedd mis Rhagfyr, derbyniwyd 29 o Ffurflenni 1 (cais am awdurdodiad ac awdurdodiad brys) gan Awdurdodau Rheoli. Roedd rhai o'r rhain yn geisiadau brys ac, fel tîm, rydym bellach yn ymdrechu i ymateb i bob cais o fewn 28 diwrnod.

Er gwaethaf y datblygiad cadarnhaol hwn, mae pwysau a heriau'n parhau yn y maes gwaith hwn. Mae'r pwysau'n ymwneud â sicrhau bod achosion unigolion yn cael eu hadnewyddu neu eu hadolygu pan fo angen.

O ran gwaith Amddifadu Rhyddid y Llys Gwarchod, fel Awdurdod mae gennym 12 sydd wedi derbyn gorchymyn y Llys Gwarchod ar hyn o bryd; 26 yn y llys neu'n cael eu hasesu ar hyn o bryd a 10 ar y rhestr aros. Unwaith eto, ein nod fel tîm yw, dros yr ychydig fisoedd nesaf, asesu pob un o'r 10 unigolyn sy'n aros ar hyn o bryd. Mae pob un o'r 10 unigolyn ar y rhestr aros wedi'u neilltuo'n ddiweddar i Feddyg Adran 12, felly mae'r broses asesu wedi dechrau. Mae chwe rheolwr gwasanaeth sy'n lofnodwyr awdurdodedig yn ymateb i bob cais awdurdodi mewn modd amserol. Fel tîm, maent wrthi'n adolygu'r holl ganllawiau a dogfennau mewnol mewn perthynas â gwaith Amddifadu o Ryddid.

***Ar hyn o bryd ein Practis a'n hamseroedd aros ni yw'r gorau yng Ngogledd Cymru***

# Astudiaeth Achos 9

**Astudiaeth Achos Timau Adnoddau Cymdeithasol**

Dyn 91 oed wedi'i dderbyn i'r ysbyty. Cyn ei dderbyn, ei wraig oedd yr unig ofalwr, gyda chefnogaeth y teulu. Ers ei dderbyn, roedd ei symudedd wedi gwaethygu, roedd angen offer codi a dau ofalwr, ac roedd y gŵr wedi mynd i wlychu a maeddu ei hun - rhywbeth nad oedd yn broblem cyn ei dderbyn. Diagnosis o Glefyd Alzheimer ac er ei fod wedi'i asesu fel nad oedd ganddo'r gallu i wneud penderfyniadau ynghylch ei anghenion gofal, roedd yr unigolyn a gafodd fynd adref wedi'i gynnwys drwy gydol y broses. Rhoddwyd ystyriaeth i'w ddymuniadau a'i deimladau. Y canlyniad dymunol oedd y câi fynd adref at ei deulu.

Ystyriwyd dymuniadau'r teulu (sydd ag Atwrneiaeth Arhosol) hefyd. Roedd y wraig, o oedran tebyg i'r unigolyn, yn gwybod na allai ofalu amdano fel yr oedd wedi'i wneud o'r blaen, ac roedd y teulu'n pryderu y byddai'n rhaid iddo fynd i gartref nyrsio neu ddisgwyl, ac roeddent yn teimlo bod aros yn yr ysbyty yn cael effaith sylweddol ar les yr unigolyn a'i wraig.

Yn dilyn cyfarfod budd gorau, cytunodd y Tîm Amlddisgyblaethol mai'r opsiwn lleiaf cyfyngol oedd i'r unigolyn ddychwelyd adref, a'i fod, hefyd, er budd gorau'r unigolyn i gael mynd adref gyda phecyn gofal a chael pedwar gofalwr yn galw pob tro.

Gweithiodd y Tîm Amlddisgyblaethol a'r darparwyr gofal yn dda gyda'i gilydd fel tîm, i hwyluso'r gwaith fyddai'n sicrhau y câi fynd adref. Trefnwyd pecyn gofal, rhoddwyd offer a chymhorthion yn eu lle o ddyddiad y cyfarfod budd gorau ar 01/03/24. Dychwelodd yr unigolyn adref at ei deulu ar 06/03/24.

Cynhaliwyd adolygiad bedair wythnos yn ddiweddarach ar 08/04/2024. Roedd yr unigolyn yn hapus i fod adref, fel yr oedd ei deulu. Roedd yr unigolyn a'r teulu yn ddiolchgar iawn am ymyrraeth a chefnogaeth pawb wrth gyrraedd adref a chyflwynodd flodau a cherdyn diolch i'r Gweithiwr cymdeithasol (gweler isod)



# Astudiaeth Achos 10

**Llesiant Meddwl Mon – Stori dinesydd**

**Cefndir:** Mae **B** wedi cael triniaeth am nifer o gyflyrau iechyd meddwl cymhleth gan gynnwys anhwylder personoliaeth a diagnosis o ASD yn ddiweddarach yn ei oes. Byddai B yn ei chael hi'n anodd cyfleu ei anghenion ac yn ymateb ag un gair yn aml. Mae B yn byw gyda'r rhieni. Roedd y rhieni'n ei chael hi'n anodd annog annibyniaeth B oherwydd y risgiau canfyddedig. Sawl cyfnod hir yn yr ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl gyda thri achos o gadw mewn llai na dwy flynedd.

Derbyniodd B becyn gofal dwys yn y gymuned rhwng cyfnodau yn yr Ysbyty, yn cynnwys gwaith cymorth, cydlynu gofal, therapi galwedigaethol, therapi seicosis ymyrraeth gynnar a therapi ymddygiad dialectig. Roedd B yn gweld cael triniaeth gartref yn anodd oherwydd anawsterau cyfathrebu oedd yn gwaethygu gyda staff anghyson.

**Problemau / Rhwystrau oedd i'w gweld:**

- Cael ei dderbyn i ysbyty dro ar ôl tro, weithiau wythnosau ar wahân.
- Yn cydymffurfio â meddyginiaeth ond llawer wedi'u treialu a fawr ddim gwelliant i'w weld
- Dim therapi pellach nac adnoddau Y Tîm Iechyd Meddwl yn y Gymuned ar gael i'w cynnig yn y gymuned.
- Rhwystrau cyfathrebu a sicrhau bod llais B yn ganolog i gynllunio gofal.
- Dim sgiliau bywyd, galwedigaeth ac annibyniaeth.
- Perygl mawr o hunan-niweidio ac ymddygiad parahunanladdiadol dro ar ôl tro.
- Nid oedd y gofal dwys a gafwyd yn y gymuned yn effeithiol a dim tystiolaeth o welliant.
- Rhieni'n profi straen gofalwyr ac yn ansicr a allent barhau i roi lefel uchel o ofal.

**Gwaith a wnaed:** Roedd gweithio'n amlasiantaethol yn hanfodol. Er mwyn cynorthwyo B gyda'i gyfathrebu a sicrhau y câi ei ddymuniadau eu hystyried, fe geisiom gyngor gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Tîm Anabledd Dysgu. Fe wnaethom, hefyd, gwblhau gwaith ymchwil ar gyfathrebu ac Awtistiaeth a datblygu awgrymiadau gweledol, siartiau lliw a defnyddio technoleg a brofodd yn effeithiol. Roedd B yn gallu cyfleu ei fod yn teimlo nad oedd ganddo bwrpas a'i fod yn cael trafferth gyda hunaniaeth.

Ar ôl adolygu'r dulliau cymunedol blaenorol, teimlwyd bod angen camu i lawr mewn dull graddol o'r ysbyty. Fe wnaethom chwilio am leoliad Arbenigol a fyddai'n darparu ar gyfer anghenion ASD (anhwylderau yn y sbectrwm awristig), ac Iechyd Meddwl wrth ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau byw annibynnol, hyder ac ailalluogi. Sicrhawyd un a threuliodd B wyth mis yn canolbwyntio ar sgiliau bywyd, meithrin annibyniaeth a chyfrifoldeb, gwella cyfathrebu a gwybodaeth yn ymwneud ag ASD a chymryd rhan mewn galwedigaeth ystyrlon.

I gefnogi B wrth iddo ddod yn ôl i'r gymuned, buom yn gwneud gwaith teuluol a chynnal trafodaethau ynghylch ffiniau a dulliau iach. Ar ôl cael ei ryddhau, mae B wedi bod yn byw yn y gymuned yn llwyddiannus. Mae angen cefnogaeth o hyd ond gyda chymryd risgiau cadarnhaol a chefnogi B i gymryd cyfrifoldeb a datblygu sgiliau, mae hyn wedi'i gynnal.

**Gwahaniaeth a wnaed i B**: Roedd llais B yn ganolog i'r broses a chanolbwyntiodd gwaith cynllunio gofal ar yr hyn oedd yn bwysig - datblygu annibyniaeth a gweithio ar hunaniaeth o amgylch diagnosis ASD. Mae B yn dweud ei fod yn llawer mwy hyderus ac yn llawer gwell wrth gyfleu anghenion nawr ac yn y dyfodol. Mae'r datblygiad yn y cyfathrebu wedi bod yn fodd iddo gymryd rhan mwy effeithiol mewn Seicoleg a chymryd Thriniaeth Gartref pan fo angen a, thrwy hyn, wedi bod yn fodd i B aros yn y gymuned. Mae hyn wedi sicrhau y câi unrhyw argyfwng ei reoli'n well a'i fod yn digwydd yn llai aml. Mae'r holl feddyginiaeth wedi dod i ben.

Yn sgil yr ymdeimlad o reolaeth dros ei fywyd, nid yw'n ymddwyn yn hunan-niweidiol cymaint gan y gall leisio ei anghenion. Dywedodd B mai'r ffactor a gyfrannodd at orfod mynd i'r ysbyty dro ar ôl tro oedd er bod yn teimlo bod pobl yn dweud wrtho beth i'w wneud ac nad oedd ganddo lais. Mae B bellach mewn addysg llawn amser, yn dysgu gyrru ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol.

Mae'r berthnas deuluol yn fwy cadarnhaol. Wrth fod ar wahân yn ystod gwaith, cafwyd pellter corfforol i brosesu teimladau a defnyddioo'r sgiliau mewn amgylchedd rheoledig heb gael ei lethu gormod.

**Dysgu:**

1. Llais yr unigolyn yn ganolog
2. Nodi a lleihau rhwystrau cyfathrebu
3. Cynllunio gofal wedi'i gyd-gynhyrchu
4. Pwysigrwydd gweithio'n amlasiantaethol a thynnu ar arbenigedd pobl eraill
5. Effaith cyflyrau niwroamrywiol ar iechyd meddwl
6. Yr angen am ddull system gyfan holistig
7. Pwysigrwydd cymryd risgiau cadarnhaol

# Astudiaeth Achos 11

**Tîm Anabledd Dysgu**

**Cefndir:** Mae A wedi cael diagnosis o anabledd dysgu ysgafn, ASD, anhwylder pryder gyda phenodau o hunan-niweidio bwriadol. Byddai hyn yn arwain at A yn ymddwyn yn hynod heriol tuag at ei hun ac eraill. Nid oedd byw gartref gyda'r teulu bellach yn bosibl ac roedd A wedi cael lle gan yr Awdurdod Lleol. Symudodd A i'r tîm anabledd dysgu o Wasanaethau Plant.

Cafodd A dri lleoliad aflwyddiannus yn ystod ei blentyndod ac ymddangosai fel rhywun anhapus ac anreoleiddiedig. Roedd pob lleoliad i ffwrdd o Ynys Môn gan arwain at ymddygiad oedd yn gwaethygu gan fod A eisiau bod yn nes at adref. Aseswyd bod gan A y gallu i wneud penderfyniadau ynghylch ble i fyw a'r gefnogaeth yr oedd yn ei dderbyn.

Bu ymyriadau sylweddol gan y Tîm Amlasiantaethol, dan arweiniad y gweithiwr cymdeithasol anabledd dysgu yn cynnal trafodaethau gydag A ac yn edrych yn gadarnhaol ar gynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn asesu pa fodel gofal y mae arno A ei eisiau wrth drosglwyddo i wasanaethau oedolion. Mynegodd A mai yr hyn yr oedd yn ei ddymuno ar gyfer y dyfodol oedd cael ei eiddo ei hun ar yr ynys gyda chefnogaeth, ac i'r gefnogaeth leihau wrth iddo ennill sgiliau a magu hyder.

**Problemau / Rhwystrau oedd i'w gweld:**

- Mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys dro ar ôl tro, weithiau ddyddiau ar wahân.
- Dim sgiliau bywyd, galwedigaeth, ac annibyniaeth a dim cyfleoedd i ddatblygu.
- Risg ailadroddus o hunan-niweidio
- Nid oedd y gofal dwys cychwynnol a roddwyd yn effeithiol a dim tystiolaeth o welliant.
- Perthynas â'r teulu ehangach yn effeithio ar ymatebion ac ymddygiadau.
- Cofnodi dymuniadau a theimladau A, a'r Tîm Amlddisgyblaethol yn ystyried ei Alluedd Meddyliol ac yn cymryd risgiau cadarnhaol

**Cymorth a roddwyd/Gwaith a Wnaed:** Roedd gwaith amlasiantaeth yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cefnogi A i leisio ei ddymuniadau a'i deimladau; cwblhawyd hyn mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant. Yn raddol, cymerodd y tîm anabledd dysgu gyfrifoldeb am gamau gweithredu uniongyrchol gydag A gan mai'r hyn y canolbwyntid arno oedd y pontio i fod yn oedolyn a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Cynhaliwyd gwaith ymchwil i ddiagnosis A a'r ffordd orau o gyfathrebu.

Cynhaliwyd trafodaethau gyda gyda'r tîm iaith a lleferydd, yn ogystal â chyda'r tîm dadansoddi ymddygiad ar y ffordd orau o ymwneud â chyfathrebu ag A ac ymateb iddo pan oedd yn camymddwyn. Roedd awgrymiadau gweledol, dogfennau hawdd eu darllen a defnyddio technoleg yn allweddol. Teimlai A dan orthrwm, nid oedd yn ymddiried mewn gwasanaethau, nid oedd yn teimlo unrhyw ddiogelwch, teimlai'n anniogel ar adegau heb bwrpas ac roedd yn cwestiynu ei hunaniaeth.

Wrth adolygu'r dulliau cymunedol blaenorol, cytunodd y Tîm Amlddisgyblaethol ar y ffordd orau i gefnogi A. Treuliodd gweithiwr cymdeithasol y tîm anabledd dysgu amser yn sefydlu perthynas waith gadarnhaol gydag A – gweithred a'u hysgogodd i ddatgelu'r rhesymeg dros rai o achosion o gamymddwyn ac iechyd meddwl A. Cytunodd y Tîm Amlddisgyblaethol fod angen cefnogi A i sefydlu amgylchedd diogel. Rhoddai'r lleoliadau aflwyddiannus a'r arsylwadau gan y Tîm Amlddisgyblaethol dystiolaeth o gryfderau. Cefnogwyd A i wneud cais am denantiaeth ei hun yn y gymuned.

Mae cynllun cymorth A, y mae A wedi cydsynio iddo, wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau byw annibynnol, hyder ac ail-alluogi. Canolbwyntiodd y gefnogaeth ar sgiliau bywyd, annog annibyniaeth a chyfrifoldeb. Mae'r Tîm Amlddisgyblaethol yn parhau i gefnogi A i ddatblygu ei wybodaeth am y diagnosis ASD, Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl a sefydlu a chynnal ffiniau iach. Mae'r angen am gefnogaeth yn parhau, ond wrth gymryd risgiau cadarnhaol a chefnogi A i gymryd cyfrifoldeb a datblygu sgiliau mae hyn wedi lleihau'n raddol.

**Canlyniadau / Gwahaniaeth a wnaed i A:**
Mae A yn gweld gwelliant yn ei hyder ac mae, Bellach, yn teimlo ei fod yn cael cefnogaeth a'i fod yn ddiogel i fynegi sut mae'n teimlo. Mae achosion o ymddwyn yn heriol a bygythiol wedi lleihau'n sylweddol gan fod A yn gallu cyfleu anghenion mewn ffyrdd mwy adeiladol. Roedd A yn rhan o'r hyn oedd yn bwysig iddo ac yn arwain hyn. Defnyddiwyd hyn wrth ddatblygu ei gynllun gofal a chymorth. Roedd A eisiau datblygu annibyniaeth, pwrpas a gweithio ar eu hunaniaeth ymhellach. Mae'r datblygiad wedi bod yn fodd i A ymwneud â Thîm Iechyd Anabledd Dysgu oedolion, sy'n cynnwys seiciatreg – rhywbeth nad oedd wedi cydsynio iddo yn y ddechrau. Mae ymwneud â'r gwaith ac ymyrryd ynddo y yn helpu A i aros yn y gymuned a lleihau amlder yr ymyrraeth argyfwng.

Mae ymdeimlad o reolaeth A dros ei fywyd wedi cynyddu ac wedi lleihau ei ymddygiadau hunan-niweidio. Roedd hyn yn ffactor a gyfrannodd at gael ei dderbyn yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys dro ar ôl tro a'r ymddygiad heriol oedd yn gwaethygu pan oedd yn y lleoliad. Mi gafodd A brofiad niweidiol yn ystod ei blentyndod ac mae hyn wedi cael effaith ar farn rhieni, felly mae'r pellter corfforol yn fodd i A brosesu'r teimladau hyn a chael rheolaeth dros y ffiniau o amgylch ei berthnasoedd.

**Dysgu:**
1. Cynllunio gofal wedi'i gyd-gynhyrchu ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person
2. Annog llais yr unigolyn
3. Pwysigrwydd sefydlu perthnasoedd gwaith da
4. Pwysigrwydd gweithio amlasiantaethol a thynnu ar arbenigedd pobl eraill
5. Diagnosis deuol; Anabledd Dysgu a chyflyrau niwroamrywiol ar iechyd meddwl.
6. Pwysigrwydd cymryd risgiau cadarnhaol

# Astudiaeth Achos 12
**Cwynion**

Cwyn a dderbyniwyd gan riant mewn perthynas ag anfodlonrwydd â'r asesiad o anghenion gofal a chymorth plentyn, arfer y Gweithiwr Cymdeithasol perthnasol a'r methiant i nodi ac ymateb yn briodol i'r ffactorau risg trwy weithredu'r gweithdrefnau amddiffyn plant.

Nodwyd pwyntiau dysgu a rhoddwyd camau gweithredu ar waith mewn perthynas ag ailasesiad i'w gwblhau. Cynhaliwyd cyfarfod gan y Rheolwyr Gwasanaeth perthnasol a chadarnhawyd bod Llwybr wedi'i egluro, roedd pob corff yn ei ddeall ac nid oedd angen unrhyw welliannau. Daw cyfeiriadau newydd trwy'r tîm Dyletswydd ac maent yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Tîm Dyletswydd hyd oni chânt eu trosglwyddo i'r tîm perthnasol. Unwaith y maent yn y tîm perthnasol yna cyfrifoldeb yr Arweinydd Ymarfer perthnasol yw cyfeiriadau amddiffyn plant ar yr achosion hynny.

Atodiad - Derbyniwyd canmoliaeth yn Chwarter 4 (25/25) gan yr un rhiant yn nodi bod yr aelod o staff yn glod i'r tîm; a bod ffydd [y rhiant] wedi'i hadfer yn y tîm a'i bod yn ddiolchgar am bopeth y mae'r aelod staff wedi'i wneud dros y teulu.

# Astudiaeth Achos 13

**Canmoliaeth**

Mae **canmoliaeth i Wasanaethau Oedolion** yn dangos barn gadarnhaol iawn am aelodau unigol o staff. Diolchgarwch am lefel y gefnogaeth a chyngor a ddarparwyd, felly'n datblygu perthnasoedd cadarnhaol. Oedolion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth neu aelodau o'u teulu yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu deall. Derbyniwyd canmoliaeth hefyd ynghylch y gofal a'r caredigrwydd o ansawdd a ddangosir mewn cartrefi preswyl a chan Gofal Môn ac Ailalluogi. Mae hefyd yn gadarnhaol derbyn adborth gan weithwyr proffesiynol eraill yn nodi'r argraff y mae ansawdd y gwaith a'r gefnogaeth i oedolion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth a'u teuluoedd yn ei chael arnynt.

Gellir gweld rhai enghreifftiau isod:

"Byddwn yn cyfeirio at ein holl alwadau ffôn ac e-byst amrywiol dros yr ychydig wythnosau diwethaf ar ôl i fy Mam orfod mynd i Ysbyty Gwynedd. Mae hi wedi bod yn ychydig wythnosau eithaf heriol a llawn straen yn ymweld â hi yn yr ysbyty ac yna'n ceisio sefydlu beth fyddai'r canlyniad diogel iddi ar ôl iddi gael gadael.

Roeddwn i eisiau cofnodi fy ngwerthfawrogiad llwyr am eich holl gymorth a'ch cefnogaeth. Rydych chi wedi fy arwain trwy'r broses heriol ac wedi trafod yr holl opsiynau sydd ar gael.

Rydych chi wedi bod yn gymwynasgar iawn yn fy nghynghori ar yr hyn oedd orau i Mam. Fedra i ddim ddiolch digon i chi am fy helpu i sicrhau lle ym Mhlas Mona lle es â fy Mam yn gynharach heddiw. Wrth adael, roedd hi'n edrych yn hapus iawn.

Am gartref gofal cyfeillgar iawn ac roedd fy Mam wrthi'n sgwrsio'n rhwydd gyda'r preswylydd. Mae ymhell o fod yn gartref ac yn amgylchedd anniogel iawn iddi.

Felly, rwy'n ddiolchgar iawn i chi a hoffwn ddweud DIOLCH YN FAWR IAWN iawn gan fy Mam, fy chwaer a minnau."

**(Teulu oedolyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)**

"Roedd defnyddiwr y gwasanaeth yn ganmoliaethus ac yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a gafodd pan siaradais â hi ar y ffôn. Dywedodd defnyddiwr y gwasanaeth wrthyf i, pan adawodd y Gweithiwr Cymdeithasol, ei bod hi'n teimlo'n llawer gwell ynddi ei hun gan wybod bod cefnogaeth ar gael ac yn teimlo bod rhywun yn gwrando arni. Mae'r holl gyfathrebu yr wyf yn ei wneud â theuluoedd sydd ag unigolion sy'n dod i Hafan naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ac maent yn aml yn canmol y cyswllt sydd ganddynt â gweithwyr cymdeithasol ac yn ddiolchgar am y gwasanaeth a'r cyngor a gânt."

**(Teulu oedolyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)**

“ E-bost cwbl ganmoliaethus i aelodau o staff (Llesiant Môn), sydd wedi gwneud sefyllfa arbennig o ofidus ……….. cymaint yn fwy goddefadwy. Mae eu dull gofalgar a rhagweithiol a'u dealltwriaeth o'r gwaith yn amlwg ac fedrwn ni ddim, fel teulu, ddiolch digon iddynt am y gefnogaeth a'r gofal a gafodd fy mrawd. Dydw i erioed wedi cwrdd â phobl sy'n fwy addas ar gyfer swydd – mae'r ddau ohonynt yn ased i Gyngor Sir Ynys Môn. Diolch o galon!”

**(Teulu oedolyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl)**

“ Rydych chi wedi bod mor gymwynasgar ac rwy'n diolch yn fawr iawn i chi am yr holl gymorth a'r gefnogaeth a gafodd Mam. Mi oedd ganddi bopeth y gallai fod wedi'i gael gennych chi… mi helpoch chi ym mhob ffordd bosib… Rydych chi'n dda iawn yn yr hyn 'dych chi'n ei wneud… ac rydych chi'n fwy na'ch swydd, doedd rhoi cefnogaeth i mi pan fedrech chi wneud gwahaniaeth ddim yn rhan o'ch swydd ond mi wrandawsoch chi a helpu… Diolch! Rydych chi'n dal i helpu fy Nhad rŵan. Rydych chi'n haeddu codiad cyflog! Ac rydych chi'n glod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol…”

**(Teulu oedolyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)**



“ Cefais y pleser o gwrdd ag un o'ch cydweithwyr y bore yma. Mae hi'n gofalu am (defnyddiwr gwasanaeth), ac fe wnaeth hi ddelio ag o'n hollol wych…….Roedd hi'n gydymdeimladol ynglŷn â'i bryderon……., gan bwysleisio mai ei phrif bryder oedd ei les a'r ffordd orau y gellid gofalu amdano yn yr amgylchiadau sy'n bodoli nawr……. fe wnaeth y Gweithiwr Cymdeithasol ei drin â chadernid a thrugaredd, ac roedd ei sgiliau wedi gwneud argraff fawr arnaf. Dw i'n meddwl mai'r agwedd fwyaf trawiadol i mi oedd ei bod hi wedi gofyn y cwestiynau cywir – rhywbeth oedd yn dangos bod ganddi ddiddordeb mewn sut orau i gynorthwyo (defnyddiwr gwasanaeth). Mae'n hawdd cwyno'n aml iawn am wasanaethau, ond mae'n rhaid i chi, hefyd, gydnabod pan fydd y gwasanaeth yn dda ac mi oedd yr hyn a welais i heddiw wedi mynd y tu draw i hynny. Felly, roeddwn i'n meddwl y byddwn i'n rhoi gwybod i chi pa mor dda oedd y profiad. Mi welais i (defnyddiwr gwasanaeth) yn ddiweddarach, amser cinio, ac roedd o'n hapus efo'r ymweliad.”

**(Teulu oedolyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)**

“ Roeddwn i wedi edrych ar y ffeil neithiwr a sylwi bod sefydlogrwydd sylweddol yn y lleoliad ar hyn o bryd. Rwy’n ddiolchgar iawn i bawb am y gwaith caled a’r sylw rydych chi i gyd wedi’i roi i’r achos hwn ac i PH. Rwy’n cynnwys y gweithwyr proffesiynol a’r gofalwyr, wrth gwrs. Dydw i ddim yn bychanu’r heriau y mae gweithwyr proffesiynol a gofalwyr yn eu hwynebu – maent yn gweithio’n aml mewn amgylchiadau heriol. Dw i’n parchu eu sgiliau a’u hymrwymiad. Mi fedra i, e’lla, wneud gorchmynion llys ond fedra i ddim rhoi’r gwasanaeth ymarferol sy’n gwneud y gwahaniaeth dyddiol gwirioneddol fel y mae gweithwyr proffesiynol a gofalwyr yn ei wneud. Fedrwch chi gyfleu fy ngwerthfawrogiad o’u gwaith a’m parch mwyaf iddynt? Diolch i chi gyd a chofion cynnes”

**(Barnwr Dosbarth, Canolfan Gyfiawnder Caernarfon)**

“ Dim ond gair byr i ddiolch i chi, Sioned, am drefnu digwyddiad mor arbennig ddoe yn M-Sparc. Roedd gweld a chlywed ymateb y gynulleidfa o bob rhan o’r Ynys yn dweud y cyfan. Mae’r cydweithio rhagorol sydd rhwng Seiriol a chwithau yn sicrhau gwasanaeth arbennig i drigolion Oed-Gyfeillgar ein Sir. Diolch yn fawr iawn.”

**(Cynghorydd Sir Ynys Môn)**



Mae **canmoliaeth i’r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** yn dangos barn gadarnhaol iawn am aelodau unigol o staff. Dangosir gwerthfawrogiad am lefel y gefnogaeth a chyngor a roddir gan ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol sydd wedi peri i oedolion sydd wedi defnyddio’r gwasanaeth neu aelodau o’u teulu deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu deall.

Yn ystod ffair gofalwyr mewn ysgol uwchradd, cafwyd adborth cadarnhaol gan ddisgyblion yr ysgol oedd yno. Wrth drafod Gwaith Cymdeithasol, daeth nifer o blant / pobl ifanc ymlaen i ddweud bod ganddynt Weithwyr Cymdeithasol yn gweithio gyda nhw ar y pryd.

Dywedodd un wrth y gweithiwr oedd yno ei fod mewn gofal maeth a bod ganddo Weithiwr Cymdeithasol oedd wedi’i helpu a siaradodd yn gadarnhaol am ei brofiadau gyda’r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Cadarnhaodd dau ddisgybl arall fod ganddynt Weithwyr Cymdeithasol hefyd ac, eto, fe wnaethant siarad yn gadarnhaol am eu profiadau, a bod y ddau ohonynt eisiau bod yn Weithwyr Cymdeithasol pan fyddant yn hŷn, fel y gallant helpu plant yn yr un ffordd ag y rhoddwyd help iddyn nhw.

Nid oedd unrhyw ymatebion negyddol i’r cwestiwn “Beth mae Gweithiwr Cymdeithasol yn ei wneud?”. Ymatebodd y disgyblion trwy ddweud “helpu pobl”, “helpu

gyda'u hannibyniaeth". Teimlai'r gweithiwr oedd yno fod yr effaith gadarnhaol a gafodd y Gweithwyr Cymdeithasol ar y plant uchod yn gwneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus i rannu eu profiadau gyda'u cyd-ddisgyblion. Mae, hefyd, yn rhoi hyder y gall Gweithwyr Cymdeithasol gyfathrebu â phlant mewn ffordd sy'n Wybodus am Drawma sydd, yn ei dro, yn fodd i blant weld Gweithiwr Cymdeithasol fel "oedolyn y gellir ymddiried ynddo". Mae hyn yn rhywbeth cadarnhaol.

Isod ceir enghreifftiau eraill o sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd:

"Diolch i chi am fod mor amyneddgar efo fi a fy helpu i ddod y person ydw i rŵan. Rydych chi wedi bod yn rhan o newid fy mywyd ac achub fi a fy mhlant am byth ac, am hynny, fedra i ddim ddiolch digon i chi."

**(Teulu Plentyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)**

" Dw i mond isio dweud diolch i chi am bob dim. Efallai y byddwch chi'n synnu ond, dw i'n hynod siomedig na fydda i'n eich gweld chi eto er ei bod hi'n ymddangos fy mod i'n eich casáu chi'r rhan fwyaf o'r amser. Doeddwn i ddim wir a dw i erioed wedi gwneud achos, rŵan dw i'n meddwl amdano, yr unig beth yr oeddech chi'n trio'i wneud oedd helpu ond, yn fy mhen, ar y pryd roedd yn teimlo fel nad oeddech chi. Dw i'n gobeithio y gwela i chi eto rywbryd, ond diolch yn fawr iawn

**(Person ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth)**

" Roedd ei ffyrdd hi efo geiriau yn eithriadol i'n helpu i ddeall ein sefyllfa...roedd yn broffesiynol drwy gydol yr amser a dreuliodd efo ni, gan wneud i ni deimlo'n falch o'r hyn a gyflawnwyd gennym gyda'r holl amser a dreuliodd efo ni. Fedren ni ddim diolch ddigon iddi. Fedren ni ddom gofyn am well cefnogaeth. Mae Iechyd Emosiynol a Llesiant wedi gwella'n aruthrol ac mae iechyd a llesiant y plentyn wedi gwella'n aruthrol.

**(Teulu'r Plentyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)**

" Dw i wrth fy modd efo pa mor groesawgar mae'r staff, maen nhw'n gwneud i bawb deimlo'n gartrefol ac yn cymryd amser i siarad â phob person sy'n dod yno. Mae'n braf eu gweld yn ffurfio perthynas â theuluoedd ac yn meithrin cysylltiadau â'r plant. Dw i'n meddwl ei fod yn grŵp gwych i blant a rhieni ddod iddo. Dw i'n teimlo'n gyfforddus iawn yn dod, ac mae fy mab yn cael llawer o hwyl ac mi fedrwch weld faint o ymdrech mae'r merched yn ei roi i'r grŵp, ac rydym wrth ein bodd efo'r holl hwyl sydd i'w gael yma."

**(Teulu Plentyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)**

" Diolch am gredu ynddo i. Dw i'n gwerthfawrogi pob dim 'dach chi wedi'i wneud. Fyddwn ni byth yn eich anghofio, byddwn yn gweld eich colli chi. 'Dach chi'n Weithiwr Cymdeithasol anhygoel. 'Da ni wedi bod mor ffodus i'ch cael chi! Mi leciwn i ddweud diolch yn fawr iawn am bopeth 'da chi wedi'i wneud i ni fel teulu. Diolch i chi am fy arwain a'm helpu i sylweddoli bod angen i mi siarad a gweithio arna i fy hun. Oni bai amdanoch chi, fyddwn i ddim pwy ydw i rŵan. 'Da chi wedi cael effaith ar fy mywyd i, un dda. Wna i fyth anghofio pob dim 'da chi wedi'i wneud, a fy helpu i ddod yn fersiwn well ohona i fy hun xxx".

**(Teulu Plentyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)**

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Mon
LL77 7TW

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngormon
Cyngormon
cyngormon

**ynysmon.llyw.cymru**